# Cynllun Gwaith Ofcom 2024/25: Crynodeb o'r ymatebion i'r ymgynghoriad

## Cyflwyniad

Gwnaeth Ofcom ymgynghori ar ei Gynllun Gwaith arfaethedig ar gyfer 2024/25 rhwng 15 Rhagfyr 2023 a 9 Chwefror 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, cawsom 59 o ymatebion gan amrywiaeth o randdeiliaid yn cynrychioli'r sectorau rydym yn eu rheoleiddio, cyrff y llywodraeth, sefydliadau defnyddwyr, cyrff y diwydiant a nifer fach o unigolion. Bydd ymatebion y rhanddeiliaid yn cael eu cyhoeddi ar wefan Ofcom, pan fyddant yn rhoi caniatâd ar gyfer hynny.

Fe wnaethom hefyd gynnal pedwar digwyddiad ymgynghori ar wahân yn Llundain, Caeredin, Belfast a Chaerdydd, gan ganiatáu i randdeiliaid gysylltu'n uniongyrchol ag Ofcom ar ein cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad a/neu i ymuno â'n digwyddiadau ymgynghori.

Pwrpas y ddogfen hon yw tynnu sylw at rai themâu allweddol o'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad a chynnig ymateb Ofcom i hyn. Mae'r crynodebau wedi'u grwpio'n themâu i adlewyrchu strwythur y Cynllun Gwaith, sef

1. Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno
2. Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi
3. Byw bywyd mwy diogel ar-lein
4. Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach
5. Gwasanaethau post
6. Meysydd trawsbynciol a gwaith sylfaenol

Gan fod y rhan fwyaf o raglenni polisi a nodir yn y Cynllun Gwaith yn destun eu proses ymgynghori a'u hamserlenni eu hunain, mae ein hymatebion yn cyfeirio'n bennaf at waith presennol, ymgyngoriadau parhaus/ar y gweill a deunyddiau a gyhoeddwyd gan Ofcom. Mewn rhai achosion, rydym wedi codi pwyntiau penodol yn uniongyrchol gyda rhanddeiliaid. Os yw rhanddeiliaid wedi gofyn am i'w hymatebion fod yn breifat ac yn gyfrinachol, nid ydym wedi cyfeirio atynt yn y ddogfen hon.

# 1. Rhyngrwyd y gallwn ddibynnu arno

## Diffodd PSTN a diffodd 2G/3G

1.1 **Cododd nifer o randdeiliaid effaith gyffredinol y newid i dechnolegau newydd, ac roedd y rhanddeiliaid hyn yn cynnwys Cyngor Cyfathrebu'r DU (CCUK), Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI), Consumer Scotland, Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon (ACNI), Openreach, Llywodraeth yr Alban, Trust Alliance Group, Llywodraeth Cymru a Which?. Codwyd pwyntiau ynghylch diogelu defnyddwyr agored i niwed drwy symud o hen wasanaethau. Roedd nifer o randdeiliaid yn disgwyl y dylai Ofcom fonitro cynnydd y diwydiant a'r effaith mae'n ei chael ar ddefnyddwyr a chymryd camau i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed. Mynegodd CCNI a Llywodraeth yr Alban bryderon ynghylch yr effaith ar ddefnyddwyr agored i niwed ac a oedd Ofcom yn deall natur agored i niwed defnyddwyr yn iawn.**

1.2 **Wrth i hen dechnolegau gael eu diffodd a rhai newydd ddod yn eu lle, roedd rhai rhanddeiliaid hefyd wedi mynegi pryderon ynghylch diogelu defnyddwyr agored i niwed drwy brosesau fel diffodd 2G a 3G. Gofynnodd Consumer Scotland am ragor o ymgysylltu ag Ofcom ynghylch diogelu defnyddwyr telegyfathrebiadau yn ei rôl ehangach fel y corff eirioli ar ran defnyddwyr statudol yn yr Alban.**

1.3 Mae'r Rhwydwaith Ffôn Cyfnewidfa Gyhoeddus (PSTN) y mae gwasanaethau llais sefydlog wedi cael eu darparu drosto ers degawdau, bellach yn nesáu at ddiwedd ei oes. Mae'r adroddiadau a gawn gan ddarparwyr telegyfathrebiadau yn dangos nifer cynyddol o ddigwyddiadau sy'n gysylltiedig â methiannau PSTN, ac mae'r mathau hyn o ddigwyddiadau, ar gyfartaledd, yn cael mwy o effaith. Mae ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2023 yn nodi bod cynnydd o 20% yn nifer y digwyddiadau PSTN a adroddwyd i ni yn 2023 a chynnydd o 60% yn nifer yr oriau gwasanaeth PSTN a gollwyd.

1.4 I'r rhan fwyaf o gwsmeriaid yr effeithir arnynt, bydd symud i wasanaeth llinell dir seiliedig ar VoIP yn syml a bydd yn golygu datgysylltu'r ffôn o'r soced wal a'i blygio i mewn i'r llwybrydd. Mae miliynau o gwsmeriaid eisoes wedi gwneud y newid hwn – mae 34% o gysylltiadau llinellau tir bellach yn cael eu darparu drwy VoIP. Mewn rhai achosion, fodd bynnag, bydd mudo'n fwy cymhleth, er enghraifft, defnyddwyr dyfeisiau teleofal, cwsmeriaid sy'n agored i niwed a chwsmeriaid sy'n dibynnu ar eu llinell dir mewn toriad pŵer.

1.5 Blaenoriaeth Ofcom ar gyfer mudo yw helpu i sicrhau bod cwsmeriaid, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed, yn cael eu diogelu rhag niwed yn ystod y cyfnod mudo. Rydym wedi bod yn glir gyda darparwyr telegyfathrebiadau o'r cychwyn cyntaf bod angen iddynt sicrhau eu bod yn diogelu cwsmeriaid, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed neu'n ddibynnol ar eu llinell dir, wrth eu symud i VoIP.

1.6 Rydym wedi cyhoeddi canllawiau ac wedi gosod disgwyliadau ar gyfer darparwyr telegyfathrebiadau. Yn benodol:

- Rydym wedi nodi safonau (Dyfodol gwasanaethau teleffon sefydlog) ar sut dylai darparwyr gefnogi a diogelu cwsmeriaid, yn enwedig y rheini sy'n agored i niwed, gan gynnwys darpariaethau penodol ar gyfer cwsmeriaid sy'n defnyddio gwasanaethau hanfodol am i lawr, fel dyfais teleofal.

- Fe wnaethom hwyluso’r gwaith o ddatblygu egwyddorion arferion gorau ar gyfer mudo IP sy’n cynnwys gofynion manwl ar gyfer darparwyr wrth symud cwsmeriaid i VoIP, gan gynnwys cymorth i gwsmeriaid agored i niwed.
- Rydym yn cyhoeddi cyngor a gwybodaeth i ddefnyddwyr ar ein gwefan (Symud llinellau tir i dechnoleg ddigidol: beth mae angen i chi ei wybod).

1.7 O ran diffodd 2G a 3G, er bod y penderfyniad, yr amseru a’r broses yn cael eu harwain gan y Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol, rydym eisiau sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu trin yn deg ac yn gallu parhau i gael gafael ar y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt. Mae rhagor o wybodaeth am yr amseroedd a beth mae’n ei olygu i ddefnyddwyr ar gael ar ein gwefan.

1.8 Rydym wedi tynnu sylw at bwysigrwydd bod gweithredwyr symudol yn cysylltu â chwsmeriaid yr effeithir arnynt gyda digon o rybudd, ac yn rhoi cyngor iddynt ar y camau y mae angen iddynt eu cymryd i barhau i ddefnyddio eu gwasanaeth symudol. Bydd angen i gwsmeriaid agored i niwed, ac yn enwedig y rheini sy’n cael trafferthion ariannol, gael cymorth ychwanegol, ac rydym yn disgwyl i ddarparwyr gymryd camau ymarferol i helpu i sicrhau eu bod yn trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg, fel y nodir yn ein canllaw ‘Trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg’.

1.9 Rydym hefyd mewn cysylltiad â grwpiau defnyddwyr, fel Which?, i helpu i hyrwyddo ymwybyddiaeth a sicrhau cyn lleied o darfu â phosibl.

1.10 Yn ogystal â ffonau symudol, mae nifer fawr o ddyfeisiau trydydd parti y gellid effeithio arnynt pan fydd 3G ac yna 2G yn diffodd, gan gynnwys larymau teleofal. Rydym wedi ysgrifennu at gymdeithasau llywodraeth leol ledled y DU, yn ogystal â’r sector teleofal, i ailadrodd pwysigrwydd sicrhau parhad gwasanaeth. Roeddem hefyd wedi tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu â chyflenwyr gwasanaethau sy’n defnyddio rhwydweithiau 2G/3G i sicrhau y bydd unrhyw wasanaethau’n parhau i weithio ar ôl diffodd y rhwydweithiau.

1.11 Yn ogystal â gosod safonau, ers 2019 rydym wedi monitro cynnydd darparwyr yn ofalus mewn perthynas â symud i VoIP, ac yn yr un modd ar gyfer diffodd 2G/3G ers 2022. Rydym yn casglu data’n gyson gan bob darparwr ac yn cwrdd â phob un ohonynt bob chwarter i drafod eu cynnydd, gan gynnwys eu polisïau a’u prosesau ar gyfer diogelu grwpiau agored i niwed yn ystod y cyfnod mudo.

1.12 Drwy ein gweithgareddau gorfodi, rydym hefyd wedi ymchwilio i sut mae darparwyr yn cydymffurfio â’n rheolau i helpu i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu diogelu yn ystod y mudo. Er enghraifft, ar raglen monitro cydymffurfiaeth â mynediad at wasanaethau brys yn ystod toriadau trydan a’n hymchwiliad i gydymffurfiad Virgin Media â rheolau sy’n ymwneud â defnyddwyr agored i niwed a mynediad at sefydliadau brys.

## Gwybodaeth am fand eang

1.13 **Yn dilyn argymhellion GigaTAG (sy’n cael ei gadeirio gan Which?), dywedodd Which? ei fod yn falch bod Ofcom wedi cyhoeddi rheolau newydd ym mis Rhagfyr 2023 i fynd i’r afael â dryswch defnyddwyr ynghylch technoleg band eang. Fodd bynnag, mynegodd Which? siom na fydd y rheolau hyn yn dod i rym tan fis Medi 2024 ac roedd yn cynnig y dylai Ofcom, ar ôl eu rhoi ar waith, asesu effeithiolrwydd yr ymyriad hwn.**

1.14 Rydym yn croesawu safbwyntiau am ein rheolau gwybodaeth band eang newydd. Yn ein datganiad diweddar, fe wnaethom nodi adborth darparwyr am yr angen am rai newidiadau cymhleth i'r system ac felly roeddem o'r farn bod naw mis yn gyfnod gweithredu priodol.

1.15 Ar hyn o bryd rydym yn ymgysylltu â darparwyr i ddeall a monitro sut mae ein rheolau'n cael eu rhoi ar waith a byddwn yn parhau i wneud hynny ar ôl iddynt gael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i ddeall effaith ein hymyriad. Rydym yn awyddus i barhau i ymgysylltu â Which? ar wella dealltwriaeth cwsmeriaid o wybodaeth band eang.

## Sgamiau

1.16 **O ran sgamiau, nododd rhanddeiliaid gefnogaeth i waith Ofcom yn y maes hwn ond mynegwyd rhai pryderon a chynigion pellach. Mae Cyngor Cyfathrebu'r DU (CCUK) yn credu bod mynd i'r afael â thwyll a sgamiau yn gofyn am ddull gweithredu mwy cydgysylltiedig rhwng y diwydiant, y Swyddfa Gartref, Ofcom, asiantaethau diogelwch gwladol a gorfodi'r gyfraith, yn ogystal â rheoleiddwyr a sefydliadau rhyngwladol. Roedd ymateb CCUK yn rhybuddio bod sefydliadau'n gwneud pethau mewn seilos, gan ei gwneud yn anodd cynnal sianeli cyfathrebu parhaus.**

1.17 Mae sgamiau telegyfathrebiadau yn dod yn fwyfwy cymhleth, ac maent yn aml yn cynnwys gwahanol gwmnïau a sectorau. Un o dair elfen ein strategaeth yw mabwysiadu dull cydlynol o atal ac amharu ar sgamwyr. Byddwn yn parhau i gydweithio a rhannu gwybodaeth fel y bo'n briodol, gan gynnwys gyda'r Llywodraeth, rheoleiddwyr, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a grwpiau defnyddwyr, yn y DU ac yn rhyngwladol. Er enghraifft, yn ddiweddar fe wnaethom lofnodi Fframwaith ar gyfer Cydweithredu â'r Comisiwn Cyfathrebu Ffederal yn yr Unol Daleithiau i'n helpu i roi terfyn ar sgamwyr lle bynnag y maent. Eleni, byddwn yn cyhoeddi datganiad, yn dilyn ein hymgynghoriad ar fynd i'r afael â galwadau sgam, yn nodi ein penderfyniad ar ein cynigion i rwystro rhifau cyflwyno sy'n cael eu ffugio rhag ffonio o dramor. Byddwn yn parhau gyda'n rhaglen orfodi sy'n canolbwyntio ar ganfod darparwyr telegyfathrebiadau unigol sy'n caniatáu i alwadau llais sgam sydd wedi'u ffugio ddod i mewn i system ffonau symudol y DU ac yn cymryd camau yn eu herbyn.

1.18 **Roedd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban (ACS) yn gwerthfawrogi ymrwymiad Ofcom i godi ymwybyddiaeth o sgamiau, ond hefyd yn tynnu sylw at y ffaith y bydd risgiau ac effaith sgamiau ar-lein a thwyll ar-lein yn fwy eithafol i aelwydydd yn yr Alban sydd eisoes mewn trafferthion ariannol. Roedd yn annog Ofcom i gynnwys llwyfannau allweddol yn y drefn diogelwch ar-lein newydd i atal sgamiau o'r cychwyn cyntaf.**

1.19 Mae ein hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon yn nodi sut rydym yn asesu risgiau twyll a niwed anghyfreithlon arall ar-lein, sut dylai cwmnïau ei fesur a'i leihau, a sut byddwn yn gweithredu yn erbyn y rheini sy'n methu. Roeddem hefyd wedi cyhoeddi cyfres o godau a chanllawiau drafft sy'n nodi'r hyn y gall gwasanaethau ar-lein ei wneud mewn perthynas â chanlyniadau chwilio a chynnwys sy'n cael ei gynhyrchu neu ei lwytho i fyny gan ddefnyddwyr i gydymffurfio â'r rheolau newydd. Yn y dogfennau hyn, rydym wedi cynnig rhai camau cychwynnol wedi'u targedu i fynd i'r afael â thwyll. Rydym yn croesawu adborth ar y cynigion hynny drwy ein proses ymgynghori.

## Fforddiadwyedd

1.20 **Cyflwynwyd amrywiaeth o bwyntiau mewn perthynas â fforddiadwyedd gwasanaethau telegyfathrebiadau i ddefnyddwyr, gan gynnwys ar argaeledd tariffau cymdeithasol a'r nifer sy'n eu defnyddio ac ar godi prisiau ar ganol contract. Roedd y rhanddeiliaid a fynegodd y pwyntiau hyn yn cynnwys Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, Llywodraeth yr Alban, Trust Alliance Group a Which?. Roedd Which? yn annog Ofcom i wneud rhai o'i godau ymarfer gwirfoddol yn orfodol i ddarparwyr. Tynnodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon sylw at bryderon tebyg, gan gyfeirio at y pwysau parhaus ar gostau byw a'r baich ychwanegol y gall hyn ei roi ar ddefnyddwyr agored i niwed, yn ogystal â niwed posibl ffioedd trawsrwydweithio damweiniol ers ailgyflwyno ffioedd trawsrwydweithio ar ôl gadael yr UE.**

1.21 **Argymhellodd y Pwyllgor Cynghori ar gyfer yr Alban (ACS) fod tîm Ofcom yn yr Alban yn parhau i fonitro ac ymateb i faterion yn ymwneud â fforddiadwyedd telegyfathrebiadau ac ymwybyddiaeth a'r defnydd o'r holl opsiynau, gan gynnwys tariffau cymdeithasol. Tynnodd yr ACS sylw hefyd at effaith cyfansawdd anawsterau ariannol ar draws gwasanaethau band eang, symudol a darlledu ar gyfer defnyddwyr yn yr Alban mewn ardaloedd daearyddol heriol.**

1.22 **Nododd Which? ei gefnogaeth i amrywiol godau ymarfer gwirfoddol Ofcom ond mae'n gobeithio gweld Ofcom yn ystyried gwneud y cynllun yn orfodol.**

1.23 Bydd ein Traciwr Fforddiadwyedd Cyfathrebu yn parhau i fonitro ac adrodd ar ymddygiad defnyddwyr o ran fforddiadwyedd gwasanaethau cyfathrebu, a sut maent yn newid. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau'r ymchwil hwn. Fe wnaethom roi rhagor o ddiweddariadau ar ein gwaith ar argaeledd tariffau cymdeithasol, y nifer sy'n eu defnyddio, ac ymwybyddiaeth defnyddwyr yn ein hadroddiad ar dueddiadau prisio yn 2023.

1.24 O ran tariffau cymdeithasol gwirfoddol, nid oes gan Ofcom y pŵer i gyflwyno tariffau cymdeithasol wedi'u rheoleiddio heb gael cyfarwyddyd i wneud hynny gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i helpu i godi ymwybyddiaeth o dariffau cymdeithasol, drwy ymgysylltu ymhellach â darparwyr a gweithio gyda'r Llywodraeth a sefydliadau defnyddwyr, i helpu i sicrhau bod mwy o aelwydydd cymwys yn ymwybodol o'r cymorth y gallant ei gael. Rydym hefyd yn ymgysylltu'n rheolaidd ag Awdurdodau Lleol yn yr Alban a Llywodraeth yr Alban i dynnu sylw at dariffau cymdeithasol.

1.25 Rydym yn nodi bod nifer o ymatebwyr wedi dweud eu bod yn cefnogi ein cynigion i wahardd codi prisiau yng nghanol contract sy'n gysylltiedig â chwyddiant. Byddwn yn cyhoeddi ein penderfyniad ar reolau newydd i wahardd codi prisiau yn gysylltiedig â chwyddiant y gwanwyn hwn.

1.26 Yn ddiweddar, rydym wedi edrych ar y ffordd y mae darparwyr cwsmeriaid sydd mewn dyled neu sy'n cael trafferth talu eu biliau yn cael eu trin. Mae gennym reolau ar waith (Amodau Hawliau Cyffredinol) ynghylch dyled a datgysylltu neu drin cwsmeriaid sy'n agored i niwed yn ariannol yn deg. Pan wnaethom ddiweddaru ein canllaw trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg, ni ddaethom ar draws unrhyw achos cryf dros ddiwygio'r rheolau hyn. Yn hytrach, fe wnaethom gryfhau ein canllaw, gyda mesurau arferion gorau ychwanegol y gallai darparwyr eu rhoi ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg ac yn sicrhau canlyniadau da i'r cwsmeriaid hynny.

1.27 Ar 22 Mawrth 2024, cyhoeddodd Ofcom ei benderfyniad i gyflwyno rheolau newydd i ddiogelu cwsmeriaid wrth drawsrwydweithio. Mae hyn yn cynnwys gofyniad newydd i ddarparwyr roi mesurau ar waith i alluogi cwsmeriaid i leihau a/neu gyfyngu ar wariant sy’n gysylltiedig â thrawsrwydweithio anfwriadol tra byddant yn y DU (er enghraifft, drwy drin defnyddio yn Iwerddon fel defnyddio yn y DU). Dylai’r mesurau hyn fod o fudd arbennig i gwsmeriaid yng Ngogledd Iwerddon.

1.28 Dros y pum mlynedd diwethaf, mae’r cynllun iawndal awtomatig wedi gweithio’n dda fel cynllun gwirfoddol y mae pob un o’r darparwyr telegyfathrebiadau sefydlog mawr yn rhan ohono. Mae’r cynllun nawr yn cynnwys 93% o gwsmeriaid band eang ac 89% o gwsmeriaid llinell dir.[1]

## Diogelwch a chadernid rhwydweithiau

1.29 **Roedd gwaith Ofcom i hyrwyddo diogelwch a chadernid rhwydweithiau yn thema amlwg ar draws nifer o ymatebion gan randdeiliaid gan gynnwys BUUK, Cellnex UK, Consumer Scotland, Eutelsat Group, Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu (FCS), y Gymdeithas Rhwydweithiau Annibynnol Cydweithredol, Ogi, Llywodraeth yr Alban a Chymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU (UKCTA).**

1.30 **Roedd Cellnex UK yn annog Ofcom i gadw i fyny â newidiadau yn y farchnad symudol ac yn gofyn am weld arallgyfeirio gwerthwyr yn cael ei roi ar waith yn fasnachol. Nododd FCS fod batri wrth gefn yn fater arall ar draws y diwydiant a fyddai’n elwa o sylw penodol yng Nghynllun Gwaith Ofcom.**

1.31 **Mae UKCTA hefyd yn awyddus i ymgysylltu ag Ofcom ar faterion yn ymwneud â chadernid cenedlaethol a batri wrth gefn. Nododd fod telegyfathrebiadau wedi dod yn rhan annatod o ddiogelwch cenedlaethol, gwasanaethau milwrol, yr heddlu a gwasanaethau brys yn ogystal â bywyd bob dydd. Mae UKCTA hefyd yn tynnu sylw at yr angen i ymgysylltu â rhanddeiliaid i sicrhau bod y disgwyliadau ar ddarparwyr yn realistig ac yn gost-effeithiol.**

1.32 **Nododd CCUK bryder bod amrywiol fectorau ymosod (TDOS, DDOS, SPIT) yn parhau i fod yn risg i'r sector, gan roi amrywiol wasanaethau pwysig mewn perygl. Cododd y cwestiwn ynghylch sut mae ochr busnesau bach y farchnad yn ymgysylltu ag Ofcom ar hyn.**

1.33 Rydym yn ymgynghori ar ganllawiau cadernid gwasanaethau a rhwydweithiau wedi’u diwygio’n sylweddol ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau. Mae hyn yn cynnwys ein disgwyliadau o ran adeiladu gwasanaethau i leihau dibyniaeth ar y rhyngrwyd a lleihau fectorau ymosod ar gyfer gwasanaethau hanfodol a allai effeithio ar wasanaethau. Mae’r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys cais ar wahân am fewnbwn ar bŵer wrth gefn ar gyfer rhwydweithiau mynediad radio symudol (RAN). Daeth yr ymgynghoriad a’r cais am fewnbwn i ben ar 1 Mawrth 2024. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad ynghyd â’r canllawiau ar gadernid wedi’u diweddaru, a’r camau nesaf ar gydnerthedd pŵer Rhwydweithiau Mynediad Radio symudol, yn ystod haf 2024.

[1] Mae’r ffigurau hyn yn gywir ym mis Rhagfyr 2022 ac nid oes unrhyw ddarparwyr wedi ymuno â’r cod ers hynny.

1.34 Mae Ofcom, mewn partneriaeth â Digital Catapult, yn cefnogi gwaith Llywodraeth y DU i sicrhau cadwyn gyflenwi fwy cystadleuol, amrywiol, arloesol, diogel a chadarn ar gyfer telegyfathrebiadau drwy brawf Rhwydwaith Mynediad Radio Agored Labordai SONIC (Canolfan Rhyngweithredu Rhwydwaith Agored SmartRAN). Bydd y prawf yn gweithio i alluogi gwerthwyr mwy newydd i brofi eu technoleg mewn amgylchedd sy'n niwtral o safbwynt masnachol.

1.35 Byddwn yn parhau i rannu ein gwybodaeth a'n harbenigedd â'r Llywodraeth ar faterion Telegyfathrebiadau'r Dyfodol, gan gynnwys fel aelod arsylwr o'r Cyngor Cynghorol ar Arallgyfeirio Cadwyn Gyflenwi Telegyfathrebiadau ac fel aelod o Fwrdd Goruchwylio Lab Telegyfathrebiadau'r DU (UKTL).

1.36 **Gwnaeth BUUK bwyntiau mewn perthynas â Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021, gan amlinellu ei bryder ynghylch y potensial i'r darpariaethau hyn roi gormod o faich ar gyflenwyr llai, a'r goblygiadau y gallai hyn eu cael ar gyfer eu twf/cystadleuaeth ehangach.**

1.37 **Yn y cyd-destun hwn o fwy o risg a bygythiadau, croesawodd Eutelsat Group fentrau deddfwriaethol y DU i wella diogelwch seilwaith telegyfathrebiadau. Fodd bynnag, fel gweithredwr lloeren, pwysleisiodd natur benodol rhwydweithiau lloeren sy'n cymhlethu'r broses o roi'r mesurau hyn ar waith. Awgrymodd y byddai cwmnïau rhyngwladol yn elwa'n fawr o weithredu egwyddor cydnabyddiaeth gilyddol o ran safonau, a fyddai'n cysylltu'r DU â marchnadoedd allweddol eraill fel yr UE.**

1.38 Mae Deddf Telegyfathrebiadau (Diogelwch) 2021 yn gosod rhwymedigaethau ar bob darparwr gwasanaethau a rhwydweithiau cyfathrebu sydd ar gael i'r cyhoedd sydd ar gael yn y DU, ni waeth beth fo eu maint. Mae'r Cod Ymarfer Diogelwch Telegyfathrebiadau (y 'Cod') cysylltiedig a gyhoeddwyd gan DSIT yn rhoi arweiniad ar y mesurau i'w cymryd i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn gan ddarparwyr o wahanol feintiau. Fel yr eglurwyd yng nghanllawiau gweithdrefnol Ofcom ei hun, rydym yn cynnal rhaglen monitro cydymffurfiad ragweithiol sy'n cynnwys darparwyr mawr (haen 1) a chanolig (haen 2). Er bod angen i ddarparwyr llai (haen 3) gydymffurfio â'u rhwymedigaethau cyfreithiol, gan gynnwys rhoi gwybod i ni am unrhyw gyfaddawdau diogelwch perthnasol, nid oes disgwyl iddynt ddilyn y mesurau yn y Cod, ac nid ydynt yn ddarostyngedig i'r rhaglen monitro cydymffurfiaeth hon chwaith.

1.39 Rydym yn llwyr werthfawrogi bod ystod eang o ddarparwyr o fewn cwmpas y darpariaethau diogelwch, ac mae gan bob un ei gyfuniad unigryw ei hun o dechnoleg rhwydwaith a gwasanaeth, pensaernïaeth, ôl troed byd-eang, maint a llawer o ffactorau eraill. Bydd angen i unrhyw ystyriaeth o'r hyn sy'n briodol ac yn gymesur o ran cydymffurfio ar gyfer darparwr penodol ystyried yr amgylchiadau hyn.

1.40 Er nad yw Ofcom yn rheoli'r ddeddfwriaeth diogelwch y mae llywodraethau'r DU a thramor yn dewis ei rhoi ar waith, rydym yn cysylltu â llawer o bartneriaid rhyngwladol, gan gynnwys asiantaethau rheoleiddio a seiberddiogelwch. Mae hyn yn ein helpu i feithrin dealltwriaeth gyffredin o'r bygythiadau diogelwch sy'n wynebu'r cwmnïau rydym yn eu rheoleiddio, a'r ymatebion rheoleiddio priodol.

## Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau

1.41 **Gwnaeth llawer o randdeiliaid nodyn o'r Adolygiad o'r Farchnad Telegyfathrebiadau Sefydlog Gyfanwerthol sydd ar y gweill (neu'r 'Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau') gan gyflwyno sylwadau cynnar am hyn. Awgrymodd y Gymdeithas Rhwydweithiau Annibynnol Cydweithredol adolygiad o Fynediad i Seilwaith Ffisegol (PIA), beth sy'n gweithio a beth sydd angen ei newid i sicrhau cywerthedd rhwng cwsmeriaid Openreach a PIA, gan gynnwys egwyddorion prisio, cynhyrchion, prosesau a chostau.**

1.42 **Nododd Openreach bryder bod angen buddsoddiad o hyd i ddiweddaru seilwaith y DU ac nad oedd Fframwaith WFTMR 2021 "wedi dod i gasgliadau pendant ynghylch gwasanaethau copr". Croesawodd FCS y WFTMR ond dywedodd fod angen gwneud mwy o waith ar gydgyfeirio'r diwydiant a seilwaith eiddo deallusol. Roedd yn cynnig y dylai Ofcom wneud gwaith penodol yn edrych ar faterion sy'n ymwneud â chystadleuaeth yn y farchnad gyfanwerthol.**

1.43 **Mynegodd BUUK y farn y dylai'r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau weithredu fel adolygiad hollbwysig o'r farchnad oherwydd newidiadau sylweddol (cyflwyno ffeibr, rhoi'r gorau i gopr, diffodd PSTN). Mynegodd y Gymdeithas Rhwydweithiau Annibynnol Cydweithredol bryder hefyd am amserlenni'r adolygiad, ac mae Llywodraeth yr Alban yn gobeithio y bydd yn ystyried cymunedau anodd eu cyrraedd. Cynigiodd Vodafone UK y dylai Ofcom gydnabod y pwysau y mae manwerthwyr yn eu hwynebu o ganlyniad i gostau cyfanwerthol a'r cydbwysedd atebolrwydd sy'n newid.**

1.44 Byddwn yn dechrau'r Adolygiad o Fynediad Telegyfathrebiadau 2026 yn ystod gwanwyn 2024, ac fel y nodir yn ein Cynllun Gwaith arfaethedig, rydym yn bwriadu cyhoeddi ein prif ymgynghoriad yn Ch4 2024/25. Byddwn yn dechrau casglu data i lywio ein hadolygiad cyn bo hir, a fydd yn rhoi cyfle i randdeiliaid rannu gwybodaeth berthnasol â ni. Bydd rhanddeiliaid hefyd yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau â ni yn ystod yr ymgynghoriad er mwyn i ni allu ystyried y rhain mewn unrhyw benderfyniadau dilynol a wnawn.

1.45 Wrth i'r gwaith hwnnw ddechrau, byddwn yn parhau i fonitro perfformiad Openreach a gweithrediadau PIA o dan ein rheoliadau presennol.

1.46 **Mynegodd Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU (UKCTA) bryderon am waith Ofcom ar Uned Monitro Openreach (OMU). Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf dywedodd mai "ychydig o ymgysylltu â rhanddeiliaid i gael barn ar berfformiad Openreach" a fu, a mynegodd siom bod Ofcom "wedi methu â chasglu'r dystiolaeth angenrheidiol i gynhyrchu adroddiad Uned Monitro Openreach ystyrlon yn 2023". Dywedodd UKCTA ei fod yn disgwyl gweld mwy o ymgysylltu â rhanddeiliaid i lunio adroddiad effeithiol eleni.**

1.47 Nid yw Uned Monitro Openreach yn gweithredu ar wahân i'r ymgysylltu ehangach sy'n digwydd â rhanddeiliaid ar draws Ofcom. Mae ein hymgysylltiad ehangach â rhanddeiliaid ar draws Ofcom yn parhau i gyfrannu at ddealltwriaeth ehangach Uned Monitro Openreach o safbwyntiau'r diwydiant ar berfformiad Openreach, ac yn cefnogi'r ddealltwriaeth honno. Rydym hefyd yn parhau i annog rhanddeiliaid i ddod â materion yn uniongyrchol atom drwy gysylltu'n uniongyrchol ag Uned Monitro Openreach pan fyddant yn bryderus, er mwyn i ni allu mynd ati'n rhagweithiol i fynd i'r afael â'r pryderon hynny mewn amser real. Mae Ofcom yn cydnabod rôl bwysig monitro Openreach yn ystod y cyfnod allweddol hwn a

bydd yn parhau i gefnogi'r drafodaeth agored, ragweithiol a chynhyrchiol rydym wedi bod yn ei chael â rhanddeiliaid wrth i ni ddechrau cynllunio ein hadroddiad nesaf.

## Newid a rhifau

1.48 **Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys Cyngor ar Bopeth yr Alban, Cyngor Cyfathrebu'r DU (CCUK) a Which?, wedi mynegi pryderon ynghylch newid, yn enwedig yr oedi i'r broses Newid Un Cam. Gofynnodd un ymateb i Ofcom fynnu bod darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd yn caniatáu i ddefnyddwyr gadw eu cyfeiriad e-bost os byddant yn newid cyflenwr. Pwysleisiodd Ogi yr angen i barhau i gydweithio â'r diwydiant i oresgyn heriau technegol sy'n ymwneud â Newid Un Cam.**

1.49 Yn sgil yr oedi cyn i'r diwydiant roi'r broses Newid Un Cam ar waith, rydym wedi agor Rhaglen Orfodi i fonitro cynnydd darparwyr perthnasol yn ofalus a sicrhau bod Newid Un Cam yn cael ei gyflawni i safon uchel cyn gynted â phosibl er mwyn gwireddu manteision proses newid haws i gwsmeriaid band eang a llinell dir.

1.50 Mae TOTSco wedi cyhoeddi dyddiad lansio newydd ar gyfer y diwydiant cyfan, sef 12 Medi 2024. Yn y pen draw, mae'r oedi parhaus gan y diwydiant wedi golygu bod cwsmeriaid yn colli allan ar fanteision proses newid gyflymach a mwy effeithiol. Ar ôl i Newid un Cam gael ei lansio, ac ar sail y dystiolaeth a gasglwyd o dan ein rhaglen orfodi yn y diwydiant, byddwn yn penderfynu a yw'n briodol agor ymchwiliadau i ddarparwyr unigol.

1.51 Er bod nifer o ddarparwyr band eang yn darparu cyfeiriadau e-bost fel rhan o'u gwasanaeth band eang, nid yw hyn yn rhywbeth y mae'n rhaid iddynt ei wneud, ac nid yw Ofcom yn rheoleiddio'r gwasanaethau e-bost hyn yn uniongyrchol. Rydym wedi cyhoeddi cyngor i ddefnyddwyr am yr opsiynau a allai fod ar gael i gadw eu cyfeiriad e-bost wrth newid, ac am ystyried symud i ddarparwr e-bost arall.

1.52 **Nododd Magrathea fod cludo rhifau yn gallu bod yn broblem i ddarparwyr gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar fusnes a nododd Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu, er ei fod yn cefnogi rheoliad newid newydd Ofcom, y byddai'n hoffi i Gynllun Gwaith 2024/25 hefyd ystyried anghenion cwsmeriaid busnes o ran newid.**

1.53 Mewn perthynas â chludo rhifau, yn ein datganiad ym mis Chwefror 2022, fe wnaethom ddweud ei bod yn bwysig bod y diwydiant yn ystyried y rhyngweithio rhwng newid a chludo wrth roi prosesau newid newydd ar waith. Yn ein datganiad ac ymgynghoriad ym mis Medi 2021, fe wnaethom egluro nad ydym yn credu ei bod yn briodol mynnu bod y diwydiant yn dilyn proses benodol ar gyfer newid busnes yn ein rheolau newid newydd oherwydd efallai y bydd gan gwsmeriaid busnes anghenion gwahanol wrth newid o'i gymharu â chwsmeriaid preswyl. Fe wnaethom ofyn i Swyddfa'r Dyfarnwr Telegyfathrebiadau ym mis Medi 2023 weithio gyda'r diwydiant i ddatblygu a gweithredu newidiadau i arferion gorau cludo rhifau i gefnogi gwell profiad o newid a chludo rhifau.

1.54 **Roedd yr FCS yn siomedig nad oedd unrhyw sôn am y Gronfa Ddata Rhifau Ffôn Cyffredin (CDB) yn y Cynllun Gwaith. Soniodd Magrathea a CCUK hefyd am y gwaith sydd wedi'i wneud i dynnu sylw at fanteision cronfa ddata rhifau ffôn cyffredin a gofyn i Ofcom adfer y gwaith ar hyn.**

1.55 Yn ein hymgynghoriad ar Adnabod Llinell y Galwr, fe wnaethom drafod rôl cronfa ddata rhifau ffôn cyffredin yn y DU i gefnogi dulliau dilysu Adnabod Llinell y Galwr. Fe wnaethom nodi y gallai cronfa ddata o'r fath gyflawni llawer o ddibenion ar gyfer darparwyr a'r

diwydiant cysylltiedig (er enghraifft, hwyluso cludo, llwybro a rheoli rhifau), ond bod y rhain y tu allan i gwmpas ein hymgynghoriad. Yn ein map dilysu data Adnabod Llinell y Galwr ym mis Chwefror 2024 (Dilysu Adnabod Llinell y Galwr (CLI) – asesiad a map ffordd y dyfodol) fe wnaethom egluro na fyddem yn bwrw ymlaen â dilysu Adnabod Llinell y Galwr ar yr adeg honno, ac yn hytrach yn archwilio atebion eraill. Yn y cyd-destun hwn, nid ydym ar hyn o bryd yn archwilio cyflwyno cronfa ddata o rifau ffôn cyffredin yn y DU.

1.56 **Croesawodd Cymdeithas Telathrebu Cystadleuol y DU (UKCTA) waith Ofcom yn parhau â'r adolygiad strategol o'r cynllun rhifau ffôn. Dywedodd UKCTA ei fod wedi gofyn yn aml i Ofcom sefydlu rheolau i atal y niwed i ddefnyddwyr a achosir gan yr hyn a elwir yn Wasanaethau Gwybodaeth, Cysylltu a Chyfeirio (ICSS).**

1.57 Rydym wedi nodi cynigion, fel rhan o'n hymgynghoriad ar reoleiddio gwasanaethau talu dros y ffôn yn y dyfodol, i osod gofynion newydd i ddiogelu defnyddwyr rhag niwed sy'n gysylltiedig â Gwasanaethau Gwybodaeth, Cysylltu a Chyfeirio (ICSS). Yn bwysicaf oll, rydym wedi cynnig ei gwneud yn ofynnol i fasnachwyr ICSS ddarparu gwybodaeth cyn-contract am ddim, yn unol â'n hamcanion polisi cyffredinol ar gyfer diogelu defnyddwyr. Roeddem hefyd yn cynnig gwahardd y masnachwr rhag darparu'r gwasanaeth nes bydd y masnachwr yn cael caniatâd gan y defnyddiwr mewn ffordd benodol.

## Darpariaeth symudol

1.58 **Tynnodd Cellnex UK sylw at yr angen am well darpariaeth symudol ac ansawdd yr adroddiadau i gefnogi defnyddwyr a'r diwydiant. Roedd yn cynnig y gallai hyn fod o fudd i'r diwydiant a hyrwyddo rhannu seilwaith symudol.**

1.59 Mae Ofcom yn diweddaru ei wiriwr darpariaeth symudol yn rheolaidd, sy'n galluogi defnyddwyr i weld beth yw'r ddarpariaeth symudol a ragwelir mewn gwahanol leoliadau ar draws y DU. Rydym wrthi'n adolygu'r gwiriwr hwn ac rydym bob amser yn ystyried ffyrdd o wella'r gwiriwr, a'r data sy'n cyfrannu ato. Mae Ofcom hefyd yn cynnwys gwybodaeth am berfformiad a darpariaeth symudol yn adroddiad Cysylltu'r Gwledydd, gan roi darlun lefel uchel o berfformiad a darpariaeth symudol sy'n benodol i'r DU ac i Weithredwyr Rhwydwaith Symudol.

1.60 **Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn dal yn bryderus na fydd y Gweithredwyr Rhwydweithiau Symudol sy'n darparu'r rhaglen Rhwydwaith Gwledig a Rennir yn cyflawni eu hymrwymiadau i ymestyn 4G yng Nghymru erbyn y dyddiad cau, sef mis Mehefin 2024.**

1.61 Mae Ofcom yn paratoi i gynnal asesiad cydymffurfio yn ystod haf 2024 i sicrhau bod y gweithredwyr rhwydweithiau symudol wedi cyflawni eu hymrwymiadau.

## Darpariaeth band eang a Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol

1.62 **Soniodd nifer o ymatebwyr am ddarpariaeth band eang a chysylltedd yn eu hymatebion. Dywedodd Llywodraeth Cymru nad yw meini prawf perfformiad yn adlewyrchu anghenion digidol cynyddol trigolion a busnesau, gan ddadlau y dylai'r Cynllun Gwaith fod yn gliriach ynghylch sut bydd Ofcom yn ysgogi cyrhaeddiad cysylltedd band eang a symudol ac yn mynd i'r afael â materion cysylltedd ar gyfer yr adeiladau anoddaf eu cyrraedd.**

1.63 **Gwnaed rhai pwyntiau cyffredinol eraill ynghylch y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Mae Which? yn credu y dylai'r gofynion sylfaenol ar gyfer gwasanaethau gael eu hailasesu a'u haddasu ac y dylai Ofcom gomisiynu dadansoddiad llawn o ddefnydd a dibyniaeth cartrefi. Awgrymodd BT fod yr amser nawr yn iawn i Ofcom ystyried cais am iawndal am gost darparu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang. Ar y llaw arall, roedd Llywodraeth yr Alban yn gofyn am gydweithio ac ymgysylltu ynghylch y cynllun talebau band eang.**

1.64 Mae gofynion sylfaenol y gwasanaeth ar gyfer y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang wedi'u nodi mewn deddfwriaeth, a mater i Lywodraeth y DU fyddai unrhyw newidiadau iddynt. Ym mis Hydref 2023, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad yn gofyn am safbwyntiau rhanddeiliaid ar yr hyn sydd wedi gweithio'n dda gyda'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol a'r hyn y gellid ei wella, gan gynnwys rhai o ofynion sylfaenol y gwasanaeth. Daeth yr ymgynghoriad i ben ddiwedd mis Tachwedd 2023 a bydd y Llywodraeth yn adolygu'r ymatebion i benderfynu ar y camau nesaf. Rydym yn gweithio'n agos gyda'r Llywodraeth wrth iddi fwrw ymlaen â'i gwaith yn y maes hwn.

1.65 O ran darpariaeth band eang, rydym yn parhau i fonitro'r gwaith o roi'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar waith, ond fel y nodwyd yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd 2023, mae'r rhan fwyaf o'r adeiladau sydd ar ôl heb fynediad at fand eang teilwng yn debygol o fod yn uwch na'r trothwy cost o £3,400 a nodir yn y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Y safleoedd hyn sydd ddrytaf i'w cysylltu sy'n debygol o fod angen atebion amgen. Ymgynghorwyd ar y mater hwn hefyd a byddwn yn parhau i weithio gyda Llywodraeth y DU ar wella mynediad band eang ar gyfer adeiladau anodd iawn eu cyrraedd.

1.66 Os bydd BT yn dymuno hawlio iawndal am gost darparu'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol band eang, byddwn yn ystyried y cais yn unol â'r broses a nodir yn ein datganiad a'n rheoliadau Cyllid ar gyfer 2020.

1.67 Rydym yn croesawu ein hymgysylltiad a'n cydweithrediad parhaus â Llywodraeth yr Alban ar y cynllun talebau band eang, a sicrhau ein bod yn rhannu data perthnasol i lywio ein hadroddiadau Cysylltu'r Gwledydd.

## Cymorth i fusnesau/diwydiant

1.68 **Mynegodd Cyngor Cyfathrebu'r DU (CCUK), Ffederasiwn y Gwasanaethau Cyfathrebu (FCS) a Magrathea gefnogaeth i 'hyrwyddwr busnes' i gynrychioli'r gymuned fusnes ym mhenderfyniadau polisi Ofcom. Awgrymodd FCS y dylai Ofcom ganolbwyntio mwy ar gwsmeriaid busnes. Yn yr un modd, cododd CCUK y cwestiwn o gymorth i fusnesau llai.**

1.69 Mae'n hanfodol bod gennym ddealltwriaeth fasnachol drylwyr o'r marchnadoedd rydym yn eu rheoleiddio er mwyn cyflawni ein dyletswyddau fel rheoleiddiwr. Byddwn yn canolbwyntio ar y galluoedd hyn drwy recriwtio cydweithwyr sydd â phrofiad masnachol, gan ddefnyddio secondiadau, a pharhau â'n rhaglen ymchwil defnyddwyr a masnachol. Rydym yn cydnabod bod Marchnadoedd Llais yn farchnadoedd arbennig o bwysig i fusnesau, ac rydym yn disgwyl i'r Adolygiad Llais ystyried sut mae'r marchnadoedd hyn yn gweithio i bob cwsmer, gan gynnwys cwsmeriaid busnes.

## Adolygu llais/marchnadoedd digidol

1.70 **O ran Marchnadoedd Digidol, awgrymodd BT y dylai Ofcom fabwysiadu dull mwy cyfannol o reoleiddio 'Gwasanaethau cyfathrebu rhyngbersonol sy'n annibynnol ar rifau' (NIICS) a'i ystyried yng nghyd-destun y Bil Marchnadoedd Digidol, Cystadleuaeth a Defnyddwyr. Dywedodd BT fod datblygiadau sylweddol wedi bod mewn marchnadoedd llais ers 2021, gan nodi ymddangosiad NIICS a chwsmeriaid yn symud i wasanaethau IP yn unig. Roedd ei ymateb yn datgan y dylai Ofcom nodi strategaeth glir ar gyfer rheoleiddio gwasanaethau llais SMP yn y dyfodol, gan gynnwys a yw'n disgwyl i hyn barhau'n briodol yn y tymor hwy.**

1.71 **Gwnaed pwynt cyffredinol gan y Cyngor Cyfathrebu (CCUK) ynghylch pryder ei aelodau nad yw'r Cynllun Gwaith arfaethedig yn rhoi digon o sylw i wasanaethau llais. Mae'n credu bod Ofcom yn rhoi "gormod o sylw i nifer fach o ddarparwyr cyfathrebiadau mawr, wedi'u hintegreiddio'n fertigol" wrth asesu'r farchnad telegyfathrebiadau bresennol.**

1.72 Rydym wedi dechrau cwmpasu ein Hadolygiad o Farchnadoedd Llais Cyfanwerthol 2026-31. Bydd hyn yn cynnwys asesiad o'r marchnadoedd terfynu galwadau sefydlog a symudol perthnasol, gan ystyried unrhyw ddatblygiadau technolegol perthnasol, ac a yw arferion defnyddio cwsmeriaid (busnes a phreswyl) wedi newid ers ein hadolygiad blaenorol. Byddwn yn ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid i lywio ein hasesiad ac yn croesawu trafodaethau cynnar â phartïon sydd â diddordeb. Fel y nodir yn ein cynllun drafft, ar hyn o bryd rydym yn bwriadu cyhoeddi ein prif ymgynghoriad yn Ch1 2025/26 a'n penderfyniadau rheoleiddio yn Ch4 2025/26.

## Darparwyr teledu drwy dalu

1.73 **Dywedodd BT y dylai Ofcom sicrhau bod pob darparwr teledu drwy dalu yn cydymffurfio'n llawn â'r rheoliadau diogelu defnyddwyr presennol.**

1.74 Mae BT yn cyfeirio at apêl a gyflwynwyd gan Sky yn erbyn penderfyniad Ofcom lle gwelsom fod rhai o wasanaethau teledu drwy dalu Sky yn wasanaethau cyfathrebu electronig a bod ein rheolau diogelu defnyddwyr sy'n berthnasol i wasanaethau o'r fath felly'n berthnasol i'r gwasanaethau hynny. Byddwn yn ystyried ein camau nesaf ar ôl canlyniad yr apêl.

# 2. Cyfryngau rydym yn ymddiried ynddynt ac yn eu gwerthfawrogi

## Dyletswyddau a pherfformiad y BBC

2.1 **Awgrymodd Better Media y dylai'r gwaith o adolygu a goruchwylio rôl a dyletswyddau gwasanaeth cyhoeddus y BBC fod yn fwy agored i'r cyhoedd, gan gynnwys arferion ymgysylltu dinesig fel ymgynghori cyhoeddus. Byddai'n hoffi i ragor o wybodaeth, adroddiadau a data gael eu cyhoeddi mewn fformatau mwy hygyrch sy'n cydnabod anghenion amrywiol defnyddwyr a dinasyddion.**

2.2 **Roedd Llywodraeth yr Alban yn credu'n gryf bod yn rhaid i'r BBC gynrychioli'r DU gyfan, a bod BBC cadarn sy'n cael arian cyhoeddus yn rhan hanfodol o'r ecosystem sy'n cynnal buddsoddiad mewn cynnwys a gynhyrchir yn yr Alban, yn datblygu talentau a chwmnïau yn yr Alban, ac yn cefnogi diwydiannau creadigol yn ehangach. Mynegwyd y farn hon hefyd gan Bwyllgor Cynghori'r Alban, a nododd yr angen am ymgysylltu a thryloywder gan y BBC ar ei gynlluniau yn y Gwledydd. Nododd Pwyllgor Cynghori Gogledd Iwerddon ei fod yn canolbwyntio ar sicrhau bod manteision darlledu gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cyflawni'n llawn yng Ngogledd Iwerddon.**

2.3 O dan Siarter a Chytundeb y BBC, mae Bwrdd y BBC yn gyfrifol am sicrhau bod y BBC yn cyflawni ei gylch gwaith, ac am bennu cyfeiriad strategol a chreadigol y sefydliad. Rôl Ofcom yw dal y BBC i gyfrif am gyflawni ei gylch gwaith. Rydym wedi nodi sut rydym yn rheoleiddio'r BBC, ac yn ymgynghori ar newidiadau i'n gwaith rheoleiddio.

2.4 Mae'r BBC yn cyhoeddi nifer o adroddiadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys Adroddiad Blynyddol. Rydym yn cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ac adroddiad data rhyngweithiol ar y BBC, gan nodi sut rydym wedi cyflawni ein dyletswyddau ac ar berfformiad y BBC yn cyflawni ei Genhadaeth a'i Ddibenion Cyhoeddus.

2.5 Mae hyn yn cynnwys adrodd ar gyflawni ei gylch gwaith creadigol yn y gwledydd a'r rhanbarthau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y BBC yn cefnogi'r sector creadigol ledled y DU. Byddwn yn parhau i adrodd ar sut mae'r BBC yn cydymffurfio â'i gwotâu cynhyrchu, sy'n mynnu bod cyfran o allbwn a gwariant rhwydwaith yn cael ei briodoli i gynhyrchu ym mhob un o'r gwledydd, yn ogystal ag adrodd ar lefelau buddsoddi mewn cynnwys heb fod yn gynnwys rhwydwaith fel rhan o'n hadroddiad blynyddol.

2.6 **Soniodd Llywodraeth Cymru am allu'r BBC i fynd i'r afael â chwynion mewn modd amserol a chynhwysfawr, gan ddweud, er bod proses gwynion BBC yn Gyntaf yn "addas i'r diben", roedd yn credu bod lle i wella.**

2.7 Rydym yn parhau i fonitro proses gwynion BBC yn Gyntaf i sicrhau ei bod yn dryloyw ac yn gweithio'n dda i gynulleidfaoedd. Yn 2024, bydd hyn yn cynnwys cynnal ymchwil siopwr dirgel ar system gwynion y BBC i fesur effeithiolrwydd y newidiadau mae'r BBC wedi'u gwneud. Ar ben hynny, yn dilyn Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC, byddwn yn adolygu cyfran gynrychioladol o benderfyniadau terfynol y BBC nad ydynt wedi cael eu huwchgyfeirio i ni.

## Effaith y BBC ar gystadleuaeth

2.8 **Roedd News Media Association yn annog Ofcom i fabwysiadu agwedd fwy rhagweithiol o ran dal y BBC i gyfrif am ei effaith ar farchnadoedd cyfryngau lleol. Roedd yn croesawu gwaith Ofcom ar luosogrwydd y cyfryngau a nododd y bydd Ofcom yn parhau i fonitro effaith gwasanaeth cyhoeddus a gweithgareddau masnachol y BBC ar y farchnad, i sicrhau nad yw'n cael gormod o effaith ar gystadleuaeth.**

2.9 Un o argymhellion Adolygiad Canol Tymor y Llywodraeth o'r BBC oedd i Ofcom gyhoeddi ein barn ar effaith y BBC ar y sectorau newyddion lleol. Bydd hyn yn rhan o'n Hadolygiad o Gyfryngau Lleol. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau tuag at ddiwedd 2024.

## Y Bil Cyfryngau

2.10 **Bydd Bil y Cyfryngau, unwaith y daw'n gyfraith, yn pennu swm sylweddol o waith i Ofcom yn y flwyddyn i ddod, fel y nodir yn ein Cynllun Gwaith arfaethedig. Cafwyd nifer o ymatebion a oedd yn gwneud pwyntiau ynghylch y Bil o amrywiaeth o safbwyntiau.**

2.11 **Roedd Directors UK yn poeni y gallai dileu rhwymedigaethau genres penodol o gylchoedd gwaith Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus arwain at rai genres yn cael eu tangynrychioli, gan gael effaith negyddol ar yr amrywiaeth o gynnwys sydd ar gael. Roeddent hefyd yn credu, os nad oes angen y cynnwys hwn mwyach ar brif sianeli llinol y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus, dim ond drwy wasanaethau ar-lein, efallai na fydd rhai gwylwyr yn gallu cael gafael arno.**

2.12 **Roedd Directors UK o'r farn bod amrywiaeth o gynnwys darlledu gwasanaeth cyhoeddus mewn perygl o ganlyniad i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn gadael gweithlu llawrydd y diwydiant teledu. Roeddent hefyd yn credu y dylid gwneud mwy ar gyfer y gweithlu diwydiant ffilm llawrydd yn gyffredinol.**

2.13 **Roedd Local Television Network (LTVN) a Comux yn poeni nad yw'r Bil Cyfryngau yn cynnwys teledu lleol yn ei ddarpariaethau. Roedd Llywodraeth yr Alban yn poeni am y newidiadau posibl yn y Bil Cyfryngau i fodel darlledwr-gyhoeddwr Channel 4. Mae Llywodraeth Cymru yn gobeithio gweithio gydag Ofcom i roi unrhyw newidiadau perthnasol i'r Bil Cyfryngau ar waith.**

2.14 Cyflwynodd Llywodraeth y DU y Bil Cyfryngau gerbron y Senedd ym mis Tachwedd 2023. Pan ddaw'n gyfraith, bydd y Bil Cyfryngau yn gwneud newidiadau i'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer rheoleiddio Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus, gwasanaethau radio a gwasanaethau fideo ar-alw. Rydym wedi diweddaru ein Cynllun Gwaith Blynyddol i adlewyrchu ein dealltwriaeth bresennol o'r newidiadau yn y Bil Cyfryngau a'r dull gweithredu ar gyfer y gwaith sy'n gysylltiedig â gweithredu. Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom gyhoeddi ein Map tuag at reoleiddio a'n cynllun gweithredu, a oedd yn cynnwys sut rydym yn bwriadu ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid.

2.15 Yn y Map rydym yn nodi ein proses arfaethedig i weithredu newidiadau i gylch gwaith y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus a rhwymedigaethau trwydded o ganlyniad i'r Bil. Mewn rhai ardaloedd, bydd gan y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus fwy o hyblygrwydd o ran sut maent yn gwasanaethu cynulleidfaoedd ar draws gwasanaethau darlledu ac ar-alw. Bydd gofyn iddynt gyhoeddi datganiadau blynyddol o bolisi rhaglenni sy'n cynnwys y gwasanaethau y byddant yn eu defnyddio i gyflawni eu cylch gwaith a'r cyfraniad y byddant yn ei wneud. Byddwn yn ymgynghori ar y newidiadau i'r trwyddedau, a'r gofynion a'r

canllawiau ar gyfer y Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus wrth baratoi Datganiadau Polisi Rhaglenni.

2.16 Mae nifer o'n dyletswyddau sy'n ymwneud â darlledwyr yn y DU yn gysylltiedig â sector cynhyrchu teledu'r DU. Er nad yw'r rhain yn berthnasol i'r diwydiant ffilm, rydym yn ymwybodol bod llawer o gynhyrchwyr a gweithwyr llawrydd yn gweithio ar draws y ddau sector, a gallant rannu heriau a chyfleoedd cyffredin, a nodwyd rhai ohonynt yn yr ymchwil a gomisiynwyd gennym ar sector cynhyrchu teledu'r DU yn 2023. Rydym yn dal o'r farn y dylai'r fframwaith rheoleiddio ar gyfer darlledu barhau i gefnogi economi greadigol y DU, gan sicrhau manteision economaidd ar draws y gwledydd a'r rhanbarthau.

2.17 Mae'r Bil Cyfryngau yn dileu'r cyfyngiad ar gyfranogiad Corfforaeth Channel 4 (C4C) yn y broses o greu rhaglenni. Ynghyd â hyn, mae'r Bil yn gosod gofynion newydd ar C4C i hwyluso cystadleuaeth deg am gomisiynau ac mae'n mynnu bod C4C yn paratoi datganiad blynyddol am ei bolisi comisiynu i'w adolygu gan Ofcom. Mae Llywodraeth y DU wedi nodi mai dim ond pan fydd C4C yn sefydlu busnes cynhyrchu y mae'n bwriadu dod â'r dyletswyddau newydd hyn i rym. Yna, byddwn yn ymgynghori ar y canllawiau ar gyfer C4C ar baratoi ei ddatganiad polisi comisiynu.

## Amrywiaeth mewn darlledu yn y DU

2.18 **Roedd Llywodraeth yr Alban a Directors UK yn cefnogi gwaith Ofcom i gynyddu amrywiaeth ar y sgrin ac oddi ar y sgrin, a'n gwaith i hwyluso sgyrsiau a hyrwyddo tegwch, amrywiaeth a chynhwysiad. Roedd Directors UK am i Ofcom nodi sut bydd yn defnyddio'r canfyddiadau hyn i ddal y darlledwyr i gyfrif ac annog Ofcom i ofyn i ddarlledwyr ddarparu data ehangach am y gweithlu llawrydd a gasglwyd gan Brosiect Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol.**

2.19 **Roedd Better Media yn poeni y gallai Ofcom fethu yn ei ddyletswydd yn y Ddeddf Cydraddoldeb os nad oedd yn cynnwys cyfryngau cymunedol a mathau annibynnol o gyfryngau wrth gasglu data.**

2.20 Mae pwerau Ofcom yn ein galluogi i fonitro cyfle cyfartal ac amrywiaeth yng ngweithluoedd darlledwyr eu hunain – gan gynnwys gweithwyr llawrydd sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda darlledwyr – ond nid yw'r pwerau yn ymestyn i fonitro cyfansoddiad y gymuned gweithwyr llawrydd ehangach. O ystyried y rôl hanfodol y mae gweithwyr llawrydd yn ei chwarae yn y sector, rydym yn parhau i ddefnyddio ein dylanwad i annog mwy o gydweithio rhwng darlledwyr a rhanddeiliaid allweddol eraill yn y sector mewn perthynas ag amrywiaeth gweithwyr llawrydd a pholisïau a phrosesau comisiynu cynhwysol. Y camau gweithredu hyn, ynghyd â'n hadroddiad blynyddol sy'n asesu'r cynnydd a wnaed gan ddarlledwyr Teledu a Radio yn y DU o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad, yw ein prif adnoddau o hyd ar gyfer dal darlledwyr i gyfrif.

2.21 Rydym yn cydnabod yn llawn y rôl bwysig y mae radio cymunedol yn ei chwarae wrth greu ac adeiladu llifoedd o dalent amrywiol. Roedd ein hadroddiad diweddaraf yn cynnwys data am y gweithlu y gofynnwyd amdano gan wasanaethau radio cymunedol fel rhan o ymarfer meincnodi i arolygu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad yr holl ddarlledwyr teledu a radio trwyddedig. Ar gyfer ein hadroddiad 2023-24, byddwn yn cyfyngu ar ein cais am ddata am y gweithlu i ddarlledwyr teledu a radio gydag 20 neu fwy o staff, i adlewyrchu'r rhwymedigaethau statudol ar hyrwyddo cyfle cyfartal nad ydynt yn berthnasol i'r darlledwyr lleiaf, ac i leihau'r baich rheoleiddio ar drwyddedeion bach. Bydd pob darlledwr

yn parhau i allu defnyddio ein hadnodd hunanasesu cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad i'w helpu i ddatblygu eu dull gweithredu ar gyfer hynny yn eu sefydliad.

## Adolygiad o Gyfryngau Lleol

2.22 **Roedd rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth yr Alban a Radiocentre, wedi croesawu ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol. Nododd Local Television Network (LTVN) a Comux rai materion i'w hystyried yn yr adolygiad: y ffin rhwng cynnwys lleol a rhanbarthol; mynediad gan deledu lleol at ddeunydd o ddigwyddiadau mawr a digwyddiadau er budd y cyhoedd (fel Llysoedd y Goron); a chyllid ar gyfer newyddiaduraeth leol.**

2.23 **Dywedodd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) fod cynulleidfaoedd yn yr Alban angen ac eisiau gweld cynrychiolaeth a phortreadu dilys o'u cymunedau ar draws radio a theledu. Roedd Pwyllgor Cynghori'r Alban o'r farn ei bod yn bwysig bod Ofcom yn parhau i gydnabod lleolrwydd fel budd, yn hytrach na baich.**

2.24 Mae ein Hadolygiad o Gyfryngau Lleol yn edrych ar ddarpariaeth, rôl a gwerth cyfryngau lleol. Fel y nodir yn ein cylch gorchwyl, bydd hyn yn cynnwys ymchwil ychwanegol i adeiladu ar ein dealltwriaeth bresennol o'r hyn y mae cynulleidfaoedd ei angen ac yn ei werthfawrogi gan wasanaethau lleol. Bydd ein gwaith hefyd yn edrych ar ddarpariaeth cyfryngau lleol bresennol, a sut mae'n esblygu wrth i gynulleidfaoedd ddefnyddio mwy o wybodaeth ar-lein, yn ogystal â'r gwerth mae cyfryngau lleol yn ei ddarparu i ddefnyddwyr ac i'r gymdeithas ehangach. Bydd hyn yn cynnwys ymgysylltu ag amrywiaeth o randdeiliaid ledled y DU, gan gynnwys cyrff newyddion lleol yn yr Alban. Byddwn yn cyhoeddi canfyddiadau ein hadolygiad tuag at ddiwedd 2024.

## Teledu Lleol

2.25 **Roedd Local Television Network (LTVN) a Comux yn annog Ofcom i wneud popeth o fewn ei allu i baratoi ar gyfer adnewyddu trwyddedau Teledu Lleol, yn enwedig drwy sefydlu proses ysgafn a chyflym. Roedd yn awyddus i ddeall y meini prawf asesu ar gyfer adnewyddu. Roedd yn croesawu ymrwymiad gan Ofcom y bydd y broses adnewyddu'n cael ei chyflymu ar gyfer gweithredwr yr amlblecs a thrwyddedeion unigol, a byddai'n croesawu eglurder ynghylch dilyniannu ac amodau ar gyfer y broses adnewyddu.**

2.26 Mae Ofcom yn cydnabod y cais gan LTVN a Comux i gyflymu'r broses adnewyddu. Cafodd y broses ei nodi yn ymateb Llywodraeth y DU i adnewyddu gwasanaethau teledu lleol. Ein bwriad yw cyhoeddi datganiad rhwng gosod a gweithredu'r Offeryn Statudol. Bydd y datganiad hwn yn egluro amserlen Ofcom ar gyfer cwblhau'r broses adnewyddu erbyn diwedd 2024, gan gynnwys beth rydym yn disgwyl fydd yn digwydd os bydd Ofcom yn penderfynu peidio ag adnewyddu trwydded benodol.

## Rheoleiddio radio masnachol

2.27 **Croesawodd Llywodraeth yr Alban ein gwaith i gyflawni gwelliannau ar draws radio masnachol a bydd yn dilyn yn agos y gwaith arfaethedig ar ddarparu cynnwys radio lleol yn dilyn y Bil Cyfryngau. Roedd yn credu ei bod yn bwysig nad yw dileu fformat yn cael effaith negyddol ar amrywiaeth radio ar draws y gwledydd, nac ar anghenion penodol cymunedau i gael eu diddanu a'u hysbysu gan gynnwys sy'n berthnasol yn lleol.**

2.28 **Mynegodd Radiocentre, a ymatebodd ar ran y diwydiant radio masnachol, ei ddiddordeb mewn canllawiau 'lleolrwydd' newydd.**

2.29 **Gofynnodd Maxxwave i Ofcom ymgynghori ar gymhwyso cymal 42 o'r Bil Cyfryngau, sy'n ymwneud â sut mae trwyddedau radio masnachol analog yn cael eu dyfarnu a'u hadnewyddu. Cododd Better Media, Bucks Radio/Buckinghamshire Media, Leicester Community Radio, Petersfield Community Radio, Rutland & Stamford Sound CIC bryderon tebyg hefyd.**

2.30 Mae'r Map rydym wedi'i gyhoeddi yn nodi ein cynllun arfaethedig ar gyfer gweithredu'r newidiadau a fydd yn cael eu gwneud gan y Bil Cyfryngau pan ddaw'n gyfraith. Mae hyn yn cynnwys cael gwared ar lawer o'r rheoliadau sydd wedi bodoli ers tro sy'n ymwneud â rhaglenni ar orsafoedd radio masnachol lleol, er y bydd gofyn i'r gwasanaethau hyn ddarparu newyddion a gwybodaeth leol o hyd. Bydd y Bil hefyd yn newid y broses ar gyfer dyfarnu trwyddedau radio masnachol analog hefyd, gan fod tri o'r pedwar maen prawf statudol presennol y mae'n rhaid i Ofcom eu hystyried yng nghyd-destun dyfarnu trwyddedau yn ymwneud ag allbwn rhaglenni. Mae Cymal 42 yn rhoi'r hyblygrwydd i Ofcom benderfynu sut gallwn ddyfarnu trwyddedau radio masnachol analog yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid yw'r Bil, fel y nodwyd mewn nifer o ymatebion, yn gorfodi Ofcom i ymgymryd ag unrhyw drwyddedu o'r fath, ac nid yw chwaith yn nodi amserlen statudol.

## DAB ar raddfa fach

2.31 **Mynegodd Radiocentre bryder ynghylch cyflwyno DAB ar raddfa fach ac mae'n credu y dylai Ofcom werthuso'r drefn i weld a yw'n cyflawni ei amcanion gwreiddiol. Roedd Better Media, Maxxwave, Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU ac eraill yn cynnig adolygu'r "terfyn 40%" ar y gorgyffwrdd rhwng DAB ar raddfa fach ac amlblecsau radio lleol.**

2.32 Mae Ofcom wedi ymrwymo i gwblhau'r gwaith o gyflawni Rowndiau 5 a 6 o drwyddedu amlblecs DAB ar raddfa fach yn 2024/25. Ar ôl cwblhau hyn, byddwn wedyn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau i wasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU yn fwy cyffredinol, gan ystyried amodau'r farchnad ar y pryd a'n swyddogaethau a'n dyletswyddau mewn perthynas â chyfleoedd trwyddedu eraill.

2.33 Rydym yn bwriadu cyhoeddi ail adroddiad cynnydd ar DAB ar raddfa fach yn nes ymlaen eleni, i ddilyn yr adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mai 2022.

2.34 Mae ein safbwynt ar y "terfyn 40%" wedi'i nodi ym mharagraffau 4.18–4.31 ein datganiad Trwyddedu DAB ar raddfa fach. Yn benodol, rydym yn ystyried bod y rhesymeg dros ein dull gweithredu presennol fel y nodir ym mharagraffau 4.29 a 4.30 yn dal yn briodol ac felly ni fydd ein hadroddiad cynnydd arfaethedig yn cynnwys adolygiad o'r "terfyn 40%". Radio cymunedol

2.35 **Hoffai Better Media weld adolygiad o'r rheolau dirymu trwyddedau ar gyfer radio cymunedol er mwyn cael gwared ar drwyddedau o orsafoedd anweithredol. Byddai Maxxwave yn hoffi i Ofcom ailystyried y meini prawf ar gyfer gwrthod ceisiadau am drwyddedau analog ar sail diffyg sbectrwm neu hyfywedd gwasanaethau ar sail sbectrwm.**

2.36 **Roedd Banbury FM yn poeni y gallai dadreoleiddio trwyddedau analog presennol, ynghyd â'r cyfle i Ofcom dderbyn ceisiadau ar-alw ar gyfer newydd-ddyfodiaid analog, gael effaith negyddol ar leolrwydd.**

2.37 Fel y nodir uchod, bydd yn rhaid i drwyddedau radio masnachol lleol gadw newyddion a gwybodaeth leol fel rhan o'u hallbwn rhaglenni o dan y newidiadau a fydd yn cael eu gwneud gan y Bil Cyfryngau. Yn ogystal â hyn, mae gwasanaethau radio cymunedol analog yn parhau i ddarparu cynnwys wedi'i gynhyrchu'n lleol i'w cynulleidfa darged, gan sicrhau bod y cynnwys maent yn ei ddarlledu yn berthnasol i'r gynulleidfa maent yn ei gwasanaethu. Mae gennym bwerau i gymryd camau gorfodi yn erbyn trwyddedai os ydym yn credu nad yw'n darparu digon o gynnwys a gynhyrchir yn lleol i gydymffurfio â'i 'Prif Ymrwymiadau'.

2.38 Mae'n rhaid i orsafoedd radio cymunedol analog ddarlledu drwy gydol cyfnod eu trwydded. Fodd bynnag, mae nifer o resymau pam y gallai gorsaf radio gymunedol ddod oddi ar yr awyr dros dro, a gallai rhai ohonynt fod y tu hwnt i reolaeth y trwyddedai. Pan fydd Ofcom wedi canfod bod trwyddedai wedi torri amodau ei drwydded am fethu â darlledu, mae gan Ofcom y pŵer i osod sancsiynau, sy'n cynnwys rhoi cosb ariannol i ddeiliad trwydded radio cymunedol neu ddirymu'r drwydded. Mae Ofcom o'r farn ei bod yn gyffredinol er budd gwrandawyr i gael gwasanaeth radio cymunedol am gyfnod llawn y drwydded ac i roi cyfle i'r trwyddedeion sicrhau eu bod yn cydymffurfio ag amodau eu trwydded. Cyn dirymu trwydded darlledu, rhaid i Ofcom fod yn fodlon bod dirymu'r drwydded er budd y cyhoedd.

2.39 O bryd i'w gilydd, mae Ofcom wedi adolygu ei bolisi darpariaeth radio analog a'r rhagdybiaethau technegol sy'n sail i'r polisi hwnnw. Nid oes gennym gynlluniau i adolygu'r polisi hwnnw eto yn y flwyddyn gyfredol, yn enwedig am nad ydym ar hyn o bryd yn cynllunio nac yn trwyddedu unrhyw orsafoedd radio analog newydd.

2.40 **Roedd On Air Radio o'r farn ei bod yn hanfodol bod cynlluniau Ofcom yn cynnwys gwaith i ganiatáu ceisiadau ar gyfer ymgeiswyr radio analog newydd. Roedd Rhwydwaith Radio Cymunedol y DU (UKCRN) yn annog Ofcom i wneud mwy o waith ar ddatblygu radio cymunedol. Gofynnodd i Ofcom barhau i ddarparu adnoddau ar gyfer ceisiadau i ehangu a gwella darpariaeth a hoffai i Ofcom barhau i gefnogi gorsafoedd sy'n dymuno, neu sydd angen, symud eu trosglwyddydd. Mae'n credu bod galw o hyd am radio FM a hoffai i Ofcom ystyried gwneud gwaith i ddeall lefel y diddordeb a'r galw am orsafoedd radio cymunedol FM newydd.**

2.41 Mae ein Cynllun Gwaith yn datgan y byddwn yn parhau â'n gwaith trwyddedu parhaus, a fydd yn cynnwys ystyried newidiadau technegol, gan gynnwys estyniadau a gwelliannau i wasanaethau analog presennol.

2.42 Mae Ofcom wedi ymrwymo i gwblhau'r gwaith o gyflawni Rowndiau 5 a 6 o drwyddedu amlblecs DAB ar raddfa fach yn 2024/25. Ar ôl cwblhau hyn, byddwn wedyn yn ystyried y ffordd orau o ddefnyddio ein hadnoddau i wasanaethu cynulleidfaoedd ledled y DU yn fwy cyffredinol, gan ystyried amodau'r farchnad ar y pryd a'n swyddogaethau a'n dyletswyddau mewn perthynas â chyfleoedd trwyddedu eraill.

2.43 Mae Ofcom yn croesawu ymateb UKCRN o ran ein hymgysylltiad parhaus â'r sector Radio Cymunedol.

2.44 Byddwn yn ymdrechu i fod yn fwy rhagweithiol wrth gyfathrebu â rhanddeiliaid os bydd oedi yn ein gallu i ddelio â cheisiadau.

2.45 **Gofynnodd UKCRN hefyd i Ofcom ystyried ceisiadau am sawl blwyddyn neu ddwy flynedd yn ffurfiol i'r Gronfa Radio Cymunedol.**

2.46 Byddwn yn ystyried hyn o dan y Nodiadau Cyfarwyddyd presennol ar gyfer y Gronfa, gan ymgynghori â Phanel y Gronfa Radio Cymunedol sy'n gwneud y penderfyniadau ynghylch dyfarniadau cyllid.

## Cofrestr o deitlau rhaglenni wedi'u gwneud y tu allan i Lundain

2.47 **Hoffai Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) i Ofcom adolygu'r canllawiau i Ddarlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus ar gyfer cynyrchiadau y tu allan i Lundain a chynyrchiadau rhanbarthol yng Nghymru, yn enwedig y meini prawf 'canolfan sylweddol', ac adrodd ar y rhain drwy'r gofrestr flynyddol o gynyrchiadau, gan gynnwys darparu'r wybodaeth hon yn nes at adeg y comisiwn.**

2.48 Roedd Ofcom wedi adolygu'r canllawiau ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol a rhaglenni rhanbarthol ar gyfer Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn 2019. Fe wnaethom gyhoeddi datganiad a chanllawiau wedi'u diweddaru ar gyfer y darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus; daeth hyn i rym ar gyfer rhaglenni sy'n cael eu darlledu o fis Ionawr 2021 ymlaen.

2.49 Yn y datganiad, roeddem yn cryfhau'r meini prawf canllaw (gan gynnwys y ganolfan sylweddol) ar gyfer cynyrchiadau rhanbarthol cymwys, a hefyd y prosesau ar gyfer adrodd, archwiliadau dirybudd a chwynion am gydymffurfio â nhw. Ar sail ein dadansoddiad o'r data sydd wedi'i gynnwys yn natganiadau blynyddol y darlledwyr, archwiliadau dirybudd o gynyrchiadau ac ymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid, gan gynnwys TAC, rydym yn dal o'r farn bod y newidiadau hyn wedi dod â mwy o drylwyredd ac atebolrwydd i'r drefn ar gyfer cynyrchiadau teledu rhanbarthol.

2.50 Dim ond ar ôl iddynt gael eu darlledu y gellir cyfrif cynyrchiadau tuag at y cwota cynyrchiadau rhanbarthol. Mae'r gofrestr o deitlau rhaglenni 'Wedi'u gwneud y tu allan i Lundain' yn nodi teitlau rhaglenni sy'n cael eu darlledu mewn blwyddyn galendr y dywedodd y BBC, ITV, Channel 4 a Channel 5 eu bod yn gynyrchiadau 'Wedi'u gwneud y tu allan i Lundain'. Mae'r Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn adrodd ar y rhain fel rhan o gydymffurfio â chwotâu cynhyrchu mewn datganiadau blynyddol ar ôl diwedd y flwyddyn.

## MG ALBA

2.51 **Byddai Llywodraeth yr Alban yn croesawu cyfeiriad llawer ehangach at MG ALBA gan ei fod yn credu bod anghydbwysedd yn yr ystyriaeth a roddir i'r Aeleg o gymharu â'r Gymraeg, ac roedd yn credu y dylai Ofcom gydnabod yr anghenion a'r heriau sy'n wynebu MG ALBA. Mae'n ystyried cynnwys cyfeiriad at gefnogi ieithoedd brodorol y DU a rôl MG ALBA fel rhan bwysig a pharhaus o gefnogi tirwedd ddarlledu amryfath ac amrywiol yn yr Alban.**

2.52 Rydym yn cydnabod y cyfraniad gwerthfawr mae MG ALBA yn ei wneud i'r dirwedd ddarlledu yn yr Alban ac yn ymgysylltu â'r cwmni'n rheolaidd wrth i ni gyflawni ein dyletswyddau statudol sy'n ymwneud â'r sefydliad ac yn ei rôl fel partner gyda'r BBC o ran gweithredu gwasanaeth BBC ALBA. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn penodi nifer o

Aelodau newydd i Fwrdd MG ALBA i gryfhau ei arweinyddiaeth. Rydym hefyd yn edrych ymlaen at weld y cytundeb partneriaeth diwygiedig rhwng MG ALBA a'r BBC.

# 3. Byw bywyd mwy diogel ar-lein

## Dulliau Ofcom ar gyfer gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein

3.1 **Cyflwynodd rhanddeiliaid amrywiaeth eang o bwyntiau ynghylch y Ddeddf Diogelwch Ar-lein a dull gweithredu Ofcom ar gyfer gweithredu'r drefn diogelwch ar-lein.**

3.2 **Mae Which? yn cefnogi gwaith Ofcom i weithredu'r drefn reoleiddio newydd ar gyfer y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ac yn gofyn i Ofcom sicrhau bod rhwymedigaethau cadarn ar waith i fynd i'r afael â thwyll ar-lein. Roedd yn dadlau y dylai Ofcom fynnu bod gwasanaethau ar-lein yn cynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy i atal twyllwyr rhag defnyddio gwasanaethau ar-lein.**

3.3 **Mynegodd Rhwydwaith y Ddeddf Diogelwch Ar-lein bryderon nad yw'r cynigion a nodir yn yr ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon yn canolbwyntio ar y systemau a'r prosesau sydd eu hangen i gyflawni'r newid sylweddol a ragwelir gan y Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Mae'r Rhwydwaith yn poeni y bydd dull gweithredu Ofcom yn hytrach yn gorfodi trefn sy'n seiliedig ar reolau, sy'n gorfodi pethau i aros yr un fath. Mae'n credu bod angen rhagor o wybodaeth i egluro sut bydd Ofcom yn gweithredu'n barhaus wrth fynd i'r afael â niwed anghyfreithlon.**

3.4 Y cynllun yw y bydd y rheolau diogelwch ar-lein newydd yn cael eu cyflwyno mewn tri cham, gyda'r amseru'n seiliedig ar ofynion y Ddeddf ac is-ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'r cynllun gweithredu a gyhoeddwyd gennym ym mis Hydref 2023 yn adlewyrchu'r dull gweithredu fesul cam hwn. Byddwn yn gweithredu mor gyflym â phosibl i roi'r drefn diogelwch ar-lein ar waith, ond yn sicrhau hefyd ein bod yn profi ein gwaith drwy ymgynghori teg, agored a thryloyw. Rydym yn gwerthfawrogi'r ymdrech sydd ynghlwm wrth ymateb i'n hymgyngoriadau ac yn nodi bod ein gwaith yn bosibl drwy adborth adeiladol a gonest gan randdeiliaid. Rydym yn ystyried y baich sy'n gysylltiedig ag ymateb i'r dogfennau rydym yn eu cyhoeddi a'u hygyrchedd. Mewn perthynas â'r ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon, rydym yn gwerthfawrogi bod y deunyddiau a gyhoeddwyd yn hir ac yn fanwl gan ein bod yn ymgynghori ar nifer o wahanol ddogfennau rheoleiddio ar y cyd, ac roedd yn bwysig bod ein dogfennau ymgynghori yn cynnwys digon o resymeg i gefnogi ein cynigion. Gan gydnabod hyn, ar gyfer yr ymgynghoriad ar Niwed Anghyfreithlon, fe wnaethom gynhyrchu nifer o ddeunyddiau hygyrch i gefnogi dealltwriaeth rhanddeiliaid, a pharatoi tair gweminar agored i egluro ein cynigion.[2] Rydym yn bwriadu canolbwyntio ar wneud ein dogfennau mor hygyrch â phosibl wrth i'r drefn esblygu.

3.5 Daeth yr ymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon i ben ar 23 Chwefror 2024. Ar hyn o bryd rydym yn ystyried yr ymatebion a ddarparwyd gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys gan gymdeithas sifil, gwasanaethau a reoleiddir, cyrff cyhoeddus ac endidau eraill. Byddwn yn mynd i'r afael â'r pwyntiau sylweddol a godwyd yn ein datganiad, a byddwn hefyd yn ceisio rhoi mwy o eglurder ynghylch ein cynlluniau i ailadrodd y codau dros amser wrth i'n sylfaen dystiolaeth a'n dealltwriaeth dyfu.

[2] Mae ein gweminar sy'n cyflwyno'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein a'n hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon ar gael yma. Roeddem hefyd wedi cyflwyno trafodaethau manwl ar ein cynigion risg a chodau ar wahân.

3.6 Ein rhagdybiaeth o ran cynllunio ar hyn o bryd, ar sail ein profiad blaenorol o gyhoeddiadau rheoleiddio mawr, yw y gallwn gyhoeddi datganiadau tua blwyddyn ar ôl yr ymgyngoriadau perthnasol. Rydym yn rhagweld y gallai rhai amserlenni amrywio, yn dibynnu ar ganlyniadau ymgysylltu â rhanddeiliaid a ffactorau perthnasol eraill.

## Ymgysylltu â rhanddeiliaid

3.7 **Ar draws amrywiaeth o ymatebion, gwnaed pwyntiau am ddull gweithredu Ofcom o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid. Gofynnodd rhai ymatebwyr am ragor o dryloywder ynghylch gwaith partneriaeth ac ymgysylltu â rhanddeiliaid Ofcom, er enghraifft gyda sefydliadau cymdeithas sifil a rheoleiddwyr rhyngwladol.**

3.8 Rydym wedi ymgysylltu'n helaeth ag ystod eang o randdeiliaid – gan gynnwys mudiadau cymdeithas sifil – dros y tair blynedd diwethaf. Mae hyn wedi bod yn hollbwysig o ran ein helpu i adeiladu'r sylfaen dystiolaeth sy'n sail i'n cyfres gyntaf o ganllawiau a chodau drafft, a bydd yn parhau i fod yn sylfaenol wrth i ni ddatblygu trefn sy'n gwneud bywyd ar-lein yn fwy diogel i'r holl ddefnyddwyr yn y DU.

3.9 Mae cydweithio rhyngwladol hefyd yn hanfodol o ystyried natur fyd-eang yr heriau rydym yn ceisio mynd i'r afael â nhw. Mae'r Rhwydwaith Rheoleiddwyr Diogelwch Ar-lein Byd-eang (GOSRN) wedi bod yn fforwm pwysig i ni rannu a thrafod arferion gorau gyda chymheiriaid rheoleiddio ac yn ein rôl fel Cadeirydd ar gyfer 2024 rydym yn ceisio adeiladu ar y gwaith y mae'r Rhwydwaith eisoes wedi'i wneud. Fel rhan o hyn, bydd y Rhwydwaith yn cyhoeddi datganiad ar gydgyfeirio rheoleiddiol dros y misoedd nesaf.

## Amddiffyn plant

3.10 **Cododd Llywodraeth Cymru bwynt penodol ynghylch annog mwy o ffocws rheoleiddiol ar ddiogelwch ar-lein ar gyfer pobl iau sy'n cael mynediad at gynnwys yn y Gymraeg. Mae'n ymwybodol yn bersonol o achosion o sgamwyr yn defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd negyddol, gan dargedu defnyddwyr iau mewn ffordd ddryslyd ac yn amhriodol.**

3.11 Mae gan y Gymraeg statws swyddogol yng Nghymru. Er mwyn rhoi hyn ar waith, mae'n rhaid i rai cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Ofcom, gydymffurfio â safonau'r Gymraeg. Rydym wedi nodi ein hasesiad o'r Gymraeg fel rhan o'n hymgynghoriad ar niwed anghyfreithlon ac wedi gofyn am adborth ar hyn drwy'r broses ymgynghori.

3.12 Bydd ein hymgynghoriad arfaethedig ar y dyletswyddau yn y Ddeddf Diogelwch Ar-lein sy'n ymwneud ag amddiffyn plant hefyd yn cynnwys asesiad iaith Gymraeg ac rydym yn croesawu adborth fel rhan o'r broses ymgynghori hon.

## Goruchwylio llwyfannau

3.13 **Mae Trust Alliance Group (TAG) yn croesawu ymrwymiad Ofcom i oruchwylio llwyfannau a defnyddio pwerau adrodd ar dryloywder i fesur effeithiolrwydd systemau a phrosesau, ac i gymell rhagor o welliannau. Awgrymodd TAG y byddai sefydlu mynediad defnyddwyr at Ddulliau Datrys Anghydfodau Digidol diduedd yn helpu i gofnodi profiadau defnyddwyr go iawn.**

3.14 Mae'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein yn mynnu bod Ofcom yn llunio adroddiad sy'n asesu mesurau gwasanaethau i gydymffurfio â'i ddyletswyddau adrodd a chwyno. Fel rhan o'r adroddiad hwnnw, rhaid i Ofcom gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ynghylch a ddylid

gwneud rheoliadau sy'n mynnu bod gwasanaethau'n sefydlu gweithdrefnau amgen ar gyfer datrys anghydfodau. Rhaid i Ofcom gyhoeddi'r adroddiad hwnnw o fewn dwy flynedd i ddarpariaethau perthnasol y Ddeddf Diogelwch Ar-lein ddod i rym.

## Llwyfannau Rhannu Fideos

3.15 **Gofynnodd rhai rhanddeiliaid am ragor o wybodaeth am ein gwaith o reoleiddio Llwyfannau Rhannu Fideos.**

3.16 Rydym wedi cyhoeddi nifer o fwletinau gorfodi sy'n dangos gwelliannau cadarnhaol i wasanaethau o ganlyniad i gamau gorfodi. Rydym yn disgwyl parhau i daflu goleuni ar ein hymdrechion gorfodi a'r canlyniadau cadarnhaol rydym wedi'u gweld.

- Fel y nodir yn adroddiad Ofcom ar weithredu diogelwch ar-lein, yn ogystal ag Adroddiad Adnewyddu'r Strategaeth ar gyfer Llwyfannau Rhannu Fideos, mae rhai o'n nodau'n cynnwys: Annog gwelliannau yn y gwasanaethau mwyaf, gan ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i wasanaethau llai a'u helpu i ddeall prosesau gorfodi ar yr un pryd.
- Hyrwyddo tryloywder, 1) am fesurau diogelwch gwasanaethau fel y dangosir yn ein hadroddiadau ar Lwyfannau Rhannu Fideos yn 2023 ar bolisïau defnyddwyr a diogelwch plant, 2) tryloywder Ofcom ei hun, bod yn atebol i'r Senedd a'r cyhoedd ac olrhain effaith rheoleiddio a'i fanteision i ddefnyddwyr, a 3) ymgysylltu'n agored â grwpiau cymdeithas sifil, cyrff arbenigol, asiantaethau gorfodi'r gyfraith a llunwyr polisi rhyngwladol.

3.17 Rydym wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu ein dull o fesur effeithiolrwydd mesurau diogelwch. Er enghraifft, mae'r gwaith rydym yn ei wneud yn Fforwm Economaidd y Byd yn ceisio asesu sut dylai llwyfannau fynd i'r afael â risgiau diogelwch digidol a mesur effaith eu hymyriadau (Adroddiad ar Lwyfannau Rhannu Fideos).

3.18 Byddwn yn parhau i fesur llwyddiant y drefn a bod yn dryloyw yn ei chylch. Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad ar yr hyn rydym wedi'i ddysgu o'r drefn yn ei chyfanrwydd cyn ei diddymu.

3.19 Byddwn yn cynhyrchu rhagor o ganllawiau cyn bo hir ynghylch diddymu'r drefn Llwyfannau Rhannu Fideos, a byddwn yn parhau i gysylltu â llwyfannau i roi gwybod am unrhyw newidiadau. Ar hyn o bryd rydym mewn cyfnod pontio pan fydd yr holl wasanaethau Llwyfannau Rhannu Fideos presennol yn parhau i gael eu rheoleiddio o dan y drefn Llwyfannau Rhannu Fideos sy'n parhau i fod yn berthnasol yn llawn i'r gwasanaethau hynny, tan 10 Ionawr 2024. Yn ystod y cyfnod hwn, byddant wedi'u heithrio o'r rhan fwyaf o ddyletswyddau'r Ddeddf Diogelwch Ar-lein. Bydd y cyfnod pontio yn dod i ben pan fydd y drefn Llwyfannau Rhannu Fideos yn cael ei diddymu'n llawn. Nodir y dyddiad ar gyfer hyn mewn rheoliadau a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol.

3.20 Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol roi o leiaf chwe mis o rybudd i lwyfannau am y dyddiad diddymu. Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn nodi mewn is-ddeddfwriaeth pryd y bydd angen i ddarparwyr Llwyfannau Rhannu Fideos gynnal asesiadau risg ac asesiadau mynediad plant – byddant yn cael o leiaf dri mis i wneud pob un o'r asesiadau hyn, yr un fath â gwasanaethau eraill a reoleiddir. Bydd Ofcom yn cefnogi darparwyr Llwyfannau Rhannu Fideos i symud i'r drefn diogelwch ar-lein; mae rhagor o wybodaeth am hyn ar gael yn ein diweddariad ar ddiddymu rheoliadau Llwyfannau Rhannu Fideos.

## Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau (MSOM)

3.21 **Roedd nifer o ymatebwyr yn cefnogi rhaglen Gwneud Synnwyr o’r Cyfryngau (MSOM) Ofcom. Pwysleisiodd CCNI bwysigrwydd gwella gwybodaeth defnyddwyr am adnoddau diogelwch ar-lein ac mae’n awyddus i Ofcom weithio gyda rheoleiddwyr eraill lle mae cylchoedd gwaith yn croestorri. Tynnodd Cyngor ar Bopeth yr Alban sylw at yr angen am fwy o fuddsoddiad mewn llythrennedd digidol wrth i fwy o wasanaethau hanfodol ddod yn ddigidol. Roedd Consumer Scotland yn annog Ofcom i barhau â'i waith ar lythrennedd digidol ac allgáu digidol.**

3.22 Rydym yn croesawu’r gefnogaeth i’n gwaith ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, sy’n canolbwyntio ar bobl a llwyfannau, fel y nodir yn ein Cynllun Blynyddol. Rydym wedi comisiynu rhaglenni peilot i fynd i’r afael ag anghenion cymunedau penodol o ran ymwybyddiaeth o’r cyfryngau mewn 13 ardal ar draws y DU, pob un ohonynt yn gweithredu mewn ardaloedd o amddifadedd ariannol.

3.23 Rydym hefyd wedi datblygu model seiliedig ar le ar gyfer ymwybyddiaeth o'r cyfryngau, lle mae arbenigwyr lleol yn adeiladu ar y cynnig presennol yn eu cymuned ac yn ymgorffori ymwybyddiaeth o'r cyfryngau mewn strategaethau digidol lleol a/neu gynigion cynhwysiad digidol. Dyma rai enghreifftiau cynnar o brosiectau peilot lleol:

- Cynnwys ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn Strategaeth Ddigidol Cyngor Dinas Glasgow;
- Ehangu rhaglenni cynhwysiad digidol yn Rhondda Cynon Taf i gynnwys sgiliau ymwybyddiaeth o’r cyfryngau;
- Y cysylltiad rhwng ymwybyddiaeth o’r cyfryngau a nodau eraill y ddinas gyfan yn Birmingham.

3.24 Mae’r Ddeddf Diogelwch Ar-lein wedi rhoi dyletswyddau ymwybyddiaeth o'r cyfryngau ychwanegol i Ofcom hefyd. Byddwn yn cyhoeddi ein strategaeth ddrafft dair blynedd ar ymwybyddiaeth o'r cyfryngau yn ystod gwanwyn 2024 ar gyfer ymgynghoriad.

# 4. Galluogi gwasanaethau di-wifr yn yr economi ehangach

## Rhyddhau sbectrwm a ffioedd sbectrwm

4.1 **Roedd Cellnex yn cefnogi cynlluniau Ofcom i ryddhau sbectrwm 1.4 GHz a 26 GHz. Roedd Cellnex hefyd yn annog Ofcom i ystyried a fyddai mantais economaidd ffioedd o daliadau sbectrwm untro a pharhaus yn fwy pe byddent yn cael eu defnyddio yn lle hynny ar gyfer rhwydweithiau ac i sicrhau effaith lluosydd economaidd.**

4.2 Fe wnaethom gyhoeddi Adolygiad o ddull gweithredu Ofcom yn seiliedig ar y farchnad ar gyfer rheoli sbectrwm symudol ym mis Ionawr 2024, mewn ymateb i strategaeth Seilwaith Di-wifr y Llywodraeth. Fel rhan o'n hadolygiad, rydym wedi edrych ar y pedwar prif ddull o ddyrannu a chodi tâl am sbectrwm symudol sy'n cael ei ddefnyddio, neu sydd wedi cael ei ddefnyddio, yn y DU ac mewn gwledydd tebyg eraill.

4.3 Roedd y gwaith hwn yn adolygu ein dull o reoli sbectrwm symudol ac mae bellach wedi'i gwblhau. Gall gweithredwyr symudol gyflwyno tystiolaeth a gofyn am adolygiad, os ydynt yn credu bod achos dros ddiwygio'r ffioedd. Os ydym yn credu bod digon o dystiolaeth bod diffyg cysoni sylweddol rhwng Ffioedd Trwyddedau Blynyddol a gwerth sylfaenol y farchnad, gallwn benderfynu adolygu.

## Band 6 GHz uwch

4.4 **Roedd y Gynghrair Sbectrwm Deinamig yn cefnogi gwaith Ofcom ar y canlyniad blaenoriaeth hwn yn gyffredinol ond mynegodd un pryder, gan annog Ofcom i beidio â diystyru rhagolygon y band 6 GHz yn y tymor agos a'i allu i gyfrannu at dargedau cysylltedd digidol y DU. Roedd Cellnex hefyd yn annog Ofcom i ryddhau sbectrwm yn y bandiau 6 GHz uwch.**

4.5 **Roedd ymateb gan sawl cwmni, gan gynnwys Apple, Broadcom, Cisco, HP a Meta yn ymdrin â sawl maes o ran defnyddio sbectrwm, yn fwyaf arbennig mewn perthynas â'r 6 GHz uwch. Roedd yr ymateb yn nodi bod gan Ofcom gyfle i gymryd rôl arwain yn Ewrop drwy symud yn gyflym i ddatblygu fframwaith rhannu hybrid ac i ganiatáu defnyddio'r band 6 GHz uwch heb drwydded fel blaenoriaeth yn ei Gynllun Gwaith ar gyfer 2024/25. Roedd yr ymateb hefyd yn canmol ein hymrwymiad i reoli sbectrwm yn arloesol ac i arwain ar y llwyfan rhyngwladol.**

4.6 Rydym yn croesawu'r ymgysylltu cadarnhaol gan y diwydiant ar y pwnc hwn ac yn cytuno y dylem barhau i flaenoriaethu ein rhaglen waith i alluogi technolegau symudol a Wi-Fi i ddefnyddio'r band 6 GHz uwch mewn ffordd hybrid. Byddwn yn parhau i gymryd rhan flaenllaw mewn astudiaethau rhyngwladol a thrafodaethau sy'n cefnogi'r gwaith o ddatblygu atebion technegol i alluogi dull rhannu hybrid o ymdrin â'r band.

4.7 **Gofynnodd BT i Ofcom gadw meddwl agored ar y defnydd gorau o 6 GHz, o ystyried yr ansicrwydd ynghylch dichonoldeb technegol rhannu hybrid rhwng symudol a Wi-Fi.**

4.8 Er ein bod wedi ymrwymo i archwilio dull rhannu hybrid ar gyfer y band, bydd unrhyw gynigion polisi penodol y byddwn yn eu datblygu yn destun Asesiad o'r Effaith a fydd yn ystyried y materion a amlygwyd mewn ymatebion, gan gynnwys ffyrdd eraill o awdurdodi 6 GHz uwch.

4.9 **Pwysleisiodd Global Satellite Operators Association (GSOA) y bydd angen i'r gwaith ar y band 6 GHz uwch ystyried cydfodolaeth â gwasanaethau lloeren presennol.**

4.10 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau cydfodolaeth rhwng gwasanaethau lloeren presennol ac unrhyw newydd-ddyfodiaid yn y 6 GHz uwch o dan drefn rhannu hybrid. Roeddem wedi llwyddo i ddadlau dros derfynau ar allyriadau symudol a fyddai'n diogelu gwasanaethau lloeren yn ddigonol yn y band yn WRC-23 ac mae'r terfynau hyn bellach wedi'u hymgorffori yn y Rheoliadau Radio Rhyngwladol.

## Rheoli sbectrwm

4.11 **Roedd Cellnex yn annog Ofcom i wella galluoedd gweithredol rheoli sbectrwm i gefnogi defnyddwyr a chwsmeriaid y mae Cellnex yn eu cefnogi drwy ei seilwaith a rennir.**

4.12 **Roedd LoRa Alliance yn annog Ofcom i gynnal ei ymrwymiad i flaenoriaethu a diogelu bandiau SRD i hybu twf ac arloesedd yn ecosystem IoT LPWAN di-wifr. Roedd yn dadlau dros ddull gweithredu cytbwys sy'n ystyried anghenion amrywiol rhanddeiliaid, gan bwysleisio pwysigrwydd diogelu'r terfyn 25 mW presennol i gefnogi cydfodolaeth nifer o ddyfeisiau a rhaglenni yn y band 915 MHz ar gyfer nifer o raglenni sy'n cael eu gweithredu gan fatri sy'n dibynnu ar bŵer trawsyrru isel.**

4.13 Mae Ofcom yn llwyr gefnogi gwaith a allai ganiatáu mwy o ddefnydd a hyblygrwydd o'r sbectrwm radio, gan roi amodau technegol ar waith i sicrhau bod modd rheoli ymyriant rhwng defnyddwyr y sbectrwm a rennir. Rydym yn parhau i weithio gyda gweinyddiaethau eraill yn CEPT i gynnal astudiaethau technegol a allai arwain at ddefnyddio'r sbectrwm yn fwy effeithlon, gan gynnwys yn y band 915 MHz.

4.14 **Roedd Grŵp Radio Diwydiant Adloniant Prydain (BEIRG) yn tynnu sylw at effeithiau negyddol y gostyngiad ar ddyraniadau sbectrwm PMSE a phwysigrwydd offer PMSE wrth greu cynnwys. Roedd yn annog Ofcom i fynd i'r afael â heriau posibl yn y dyfodol a allai effeithio ar y sector ymlaen llaw a pharhau i ymgysylltu â'r sector. Mae Shure UK yn cydnabod cefnogaeth Ofcom i PMSE a'i ymgysylltiad parhaus â'r sector. Fodd bynnag, mae hefyd yn tynnu sylw at y ffaith na fydd arloesi ar ei ben ei hun yn gallu lliniaru gostyngiad pellach ym mynediad PMSE at sbectrwm addas. Roedd yn annog parhau i eirioli dros gadw mynediad i'r band 470 – 694 MHz, yn y DU ac yn rhyngwladol, er mwyn diogelu'r arbedion maint sydd eu hangen ar wneuthurwyr offer PMSE.**

4.15 Mae Ofcom yn cydnabod y manteision sylweddol a ddaw yn sgil y sector creu cynnwys i fusnesau a defnyddwyr yn y DU. Rydym yn cynllunio ac yn trwyddedu'r sbectrwm a ddefnyddir gan y sector PMSE ar gyfer gwneud rhaglenni a digwyddiadau ac rydym yn parhau i fonitro ac asesu'r galw am sbectrwm yn y dyfodol. Byddwn hefyd yn parhau i ymgysylltu â'r sector, gan gynnwys BEIRG, er mwyn i ni allu aros ar draws yr holl ddatblygiadau technoleg offer perthnasol a pharhau i ddeall anghenion sbectrwm tebygol PMSE yn y dyfodol.

4.16 **Awgrymodd BT fod ein hymgynghoriad ar ddyfarnu sbectrwm SDL 1.4 GHz sydd wedi'i drefnu ar gyfer Ch1 blwyddyn ariannol 24-25 yn gynamserol ac y dylid ei ohirio tan Ch4. Mae BT hefyd yn credu y dylai Ofcom ddarparu ar gyfer adolygiad o Ffioedd Trwydded Blynyddol ar gyfer sbectrwm yn y band 1800MHz yn ei gynllun gwaith. Roedd Cellnex yn awyddus i ddeall unrhyw gamau rydym yn rhagweld y byddwn yn eu cymryd ar ôl**

**cwblhau'r adolygiad yn 2023 o'n dull gweithredu ar sail y farchnad ar gyfer rheoli sbectrwm symudol.**

4.17 Rydym wedi ystyried awgrym BT ar amseriad ein hymgynghoriad ar ddyfarnu sbectrwm SDL 1.4 GHz. Rydym yn credu ei bod hi'n briodol i ni gynnal ein cynllun i ymgynghori ar y mater hwn yn Ch1 er mwyn helpu i sicrhau bod y sbectrwm hwn yn cael ei ddefnyddio'n amserol, gan gofio y byddai'n cymryd misoedd lawer i'w roi ar waith ar ôl ymgynghori.

4.18 Fe wnaethom ystyried Ffioedd Trwydded Blynyddol fel rhan o'r adolygiad a gynhaliwyd gennym yn 2023, mewn ymateb i gais gan y Llywodraeth, am ein dull gweithredu ar sail y farchnad ar gyfer rheoli sbectrwm symudol. Fe wnaethom gyhoeddi'r adolygiad hwn ym mis Ionawr 2024. Gall gweithredwyr symudol gyflwyno tystiolaeth a gofyn am adolygiad o'r Ffioedd Trwydded Blynyddol y maent yn eu talu, os ydynt yn credu bod achos dros eu diwygio. Os ydym yn credu bod digon o dystiolaeth bod diffyg cysoni sylweddol rhwng Ffioedd Trwyddedau Blynyddol a gwerth sylfaenol y farchnad, gallwn benderfynu adolygu.

## Y sector cyfleustodau

4.19 **Cynigiodd Cellnex fod angen gwneud rhagor o waith i ddyrannu sbectrwm i'r sector cyfleustodau ac y byddai'n hoffi gweld amserlen a phroses ar gyfer rhyddhau sbectrwm.**

4.20 Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth y DU i gefnogi ei nodau sero net gyda system gyfathrebu weithredol sy'n addas ar gyfer anghenion y grid clyfar yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth yn edrych ar gost pob opsiwn i sicrhau gwerth am arian i ddefnyddwyr ynni. Fel y nodwyd yn ein diweddariad ym mis Tachwedd 2023, os bydd y Llywodraeth yn penderfynu bod angen rhwydwaith cyfleustodau preifat, ein camau nesaf fyddai datblygu cynigion sbectrwm penodol. Yn y cyfamser, rydym yn parhau â'n gwaith i gadarnhau pa mor addas yw'r bandiau posibl ar gyfer cyfleustodau. Os bydd y Llywodraeth yn penderfynu bod angen rhwydwaith cyfleustodau preifat, ein camau nesaf fyddai datblygu cynigion sbectrwm penodol. Yn y cyfamser, rydym yn parhau â'n gwaith i gadarnhau pa mor addas yw'r bandiau posibl ar gyfer cyfleustodau.

## Gwasanaethau brys

4.21 **Mae Llywodraeth yr Alban yn awyddus i ymgysylltu ag Ofcom ynghylch gwella diogelwch a chadernid rhwydweithiau i gefnogi gwasanaethau brys.**

4.22 Rydym yn ymgynghori ar ganllawiau cadernid gwasanaethau a rhwydweithiau wedi'u diwygio'n sylweddol ar gyfer darparwyr cyfathrebiadau. Mae'n adlewyrchu'r ddibyniaeth gynyddol ar rwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu electronig cyhoeddus. Mae'r canllawiau cydnerthedd diwygiedig arfaethedig yn cynnwys canllawiau technegol a gweithredol mewn perthynas â phensaernïaeth rhwydwaith, dylunio gwasanaethau, a'r prosesau gweithredol sy'n gysylltiedig â rhedeg a chynnal rhwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu. Bwriad y canllawiau hyn yw rhoi sylw i rwydweithiau a gwasanaethau cyfathrebu gan ddarparwyr mawr a bach, technolegau llinell dir a di-wifr, gyda defnyddwyr a chwsmeriaid busnes.

4.23 Mae hyn yn cynnwys ein disgwyliadau o ran adeiladu gwasanaethau i leihau dibyniaeth ar y rhyngrwyd a lleihau fectorau ymosod ar gyfer gwasanaethau hanfodol a allai effeithio ar wasanaethau.

4.24 Mae'r ymgynghoriad hwn hefyd yn cynnwys cais ar wahân am fewnbwn ar bŵer wrth gefn ar gyfer rhwydweithiau mynediad radio symudol (RAN).

4.25 Daeth yr ymgynghoriad a'r cais am fewnbwn i ben ar 1 Mawrth 2024. Rydym yn bwriadu cyhoeddi ein datganiad ynghyd â'r canllawiau ar gadernid wedi'u diweddaru, a'r camau nesaf ar gydnerthedd pŵer Rhwydweithiau Mynediad Radio symudol, yn ystod haf 2024.

4.26 **Roedd Cellnex o'r farn bod rhyddhau sbectrwm ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon yn bwysig er mwyn gallu defnyddio'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau gwarchod y cyhoedd a lleddfu effeithiau trychineb.**

4.27 Roeddem yn cydnabod pwysigrwydd galluogi'r genhedlaeth nesaf o wasanaethau diogelu'r cyhoedd a lleddfu effeithiau trychineb yn ein hymgynghoriad ar Sbectrwm ar gyfer Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon a'r sector cyfleustodau yng Ngogledd Iwerddon i benderfynu ar ffordd ymlaen, o ystyried bod gan y ddau sector ddiddordeb mewn mynediad at yr un sbectrwm.

## Lloeren

4.28 **Roedd nifer cymharol uchel o ymatebion yn edrych ar ein gwaith sbectrwm mewn perthynas â'r diwydiant Lloeren. Croesawodd GSOA gydnabyddiaeth Ofcom o'r angen i edrych ar rôl lloeren o ran darparu gwasanaethau uniongyrchol i ddyfeisiau. Roedd Lacuna a'r LoRa Alliance yn annog Ofcom i gefnogi gwaith sy'n ymwneud â datrysiadau 'lloeren SRD'.**

4.29 Fel y gwnaethom ei ddweud yn ein hymgynghoriad ar Gynllun Gwaith 2024/25, byddwn yn parhau i ymgysylltu'n rhyngwladol er mwyn datblygu rheoliadau. O ystyried ehangder yr eitemau ar gyfer agenda WRC-27 sy'n ymwneud â gwasanaethau lloeren, byddwn yn blaenoriaethu ein hymdrechion er mwyn canolbwyntio ar wasanaethau a fydd yn dod â'r budd mwyaf i bobl a busnesau yn y DU.

4.30 Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod ein proses awdurdodi sbectrwm yn addas i'r diben ar gyfer gwasanaethau uniongyrchol i ddyfeisiau. Bydd y cais am fewnbwn rydym yn bwriadu ei gyhoeddi yn Ch1 yn casglu tystiolaeth am y galw yn y dyfodol am wasanaethau uniongyrchol i ddyfeisiau a band cul eraill a'r gofynion sbectrwm cysylltiedig a bydd yn sail i sut rydym yn ymgysylltu ag eitemau agenda perthnasol yr ITU.

4.31 **Gwnaeth nifer o ymatebwyr sylwadau ar fynediad lloeren at fandiau penodol. Roedd Rivada o'r farn ei bod yn bwysig ailadrodd y cais i gynnwys yr opsiwn i sicrhau bod y band 28 GHz ar gael ar gyfer cyfathrebu â defnyddwyr gyda systemau lloeren, a dywedodd ei fod yn disgwyl i Ofcom werthuso a galluogi pyrth a therfynellau defnyddwyr i gydfodoli yn y band 28 GHz yn sgil hynny. Tynnodd GSOA sylw at yr angen i ddiogelu gwasanaethau lloeren rhag ymyriant niweidiol yn y bandiau 26 GHz a 40 GHz pan awdurdodir gwasanaethau daearol symudol ac anogodd Ofcom hefyd i alluogi mynediad ESIM i ystod ehangach o amleddau yn dilyn cytundebau rhyngwladol. Roedd Eutelsat hefyd wedi gwneud pwyntiau ar y bandiau mmWave, Ku a Q/V.**

4.32 Ym mis Awst 2023, fe wnaethom gyhoeddi ymgynghoriad ar byrth lloeren yn y sbectrwm sy'n cael ei ddychwelyd gan Arqiva yn y band 28GHz ac yn ddiweddar rydym wedi cyhoeddi datganiad ac ymgynghoriad ehangach ar y band 28 GHz a Chais am Fewnbwn ar ddarparu sbectrwm ychwanegol er mwyn i byrth lloeren eu defnyddio yn y bandiau Q/V ac E. Yn ein

Strategaeth Sbectrwm Gofod, fe wnaethom ddweud y byddem yn cyflwyno cynigion i ehangu'r amleddau sydd ar gael ar gyfer Gorsafoedd awyr, morol a Daear Symudol (ESIMS) ar ôl i WRC-23 ddod i ben.

4.33 Byddwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod mwy o sbectrwm ar gael ar gyfer pyrth lloeren i gefnogi gwasanaethau band eang lloeren cyflymach i fusnesau a defnyddwyr yn y DU. Mewn perthynas â phryder GSOA ynghylch y risg o ymyriant niweidiol yn y bandiau 26 GHz a 40 GHz, rydym yn nodi bod ein datganiad ym mis Medi 2023 yn nodi'r mesurau rydym wedi penderfynu eu mabwysiadu ar gyfer cydlynu defnyddio sbectrwm yn y bandiau hynny.

4.34 **Mae Eutelsat yn argymell bod Ofcom yn aros nes bydd gwaith cysoni presennol CEPT mewn perthynas â'r band 3.8-4.2 GHz wedi cael ei gwblhau a'i gwblhau'n derfynol cyn cyflwyno unrhyw feini prawf technegol newydd. Cododd GSOA bwyntiau hefyd ynghylch pwysigrwydd parhaus y band 3.8 - 4.2 GHz ar gyfer lloeren.**

4.35 Rydym yn ystyried y pwyntiau a godwyd gan Eutelsat ochr yn ochr ag ymatebion eraill i'n cynigion ymgynghori ar Fynediad a Rennir, gan barhau i gymryd rhan mewn trafodaethau yn CEPT. Rydym yn disgwyl nodi'r cynigion polisi terfynol yn ystod y misoedd nesaf.

# 5. Gwasanaethau post

5.1 **Darparodd amrywiol randdeiliaid ymatebion a oedd yn berthnasol i'n dyletswyddau rheoleiddio post, gan gynnwys: Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon, Consumer Scotland, Evri, y Fforwm Cystadleuaeth Post, Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon, y Post Brenhinol, Llywodraeth yr Alban a Whistl.**

## Dyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol

5.2 **Gwnaed nifer o bwyntiau mewn perthynas â'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post. Roedd y Fforwm Cystadleuaeth Post (MCF) yn croesawu'r cyfle i ychwanegu at y drafodaeth ar ddiwygiadau posibl i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol gyda chanlyniadau cynyddol i draffig nad yw'n gysylltiedig â'r Rhwymedigaeth. Mae'n credu nad yw'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn addas i'r diben mwyach. Gofynnodd Evri fod Ofcom yn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn effeithio ar gystadleuaeth yn y sector post, yn enwedig y farchnad barseli. Ar gyfer cynllun gwaith 2024/25, awgrymodd Whistl fod Ofcom yn comisiynu rhywfaint o ymchwil strwythuredig, meintiol i anghenion defnyddwyr yn y sector Post Swmp.**

5.3 **Dywedodd y Post Brenhinol ei bod yn hanfodol bod Cynllun Gwaith Ofcom yn darparu mwy o dryloywder a chynllun gweithredu cliriach ar gyfer datblygu'r prosiect Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer y post yn y dyfodol. Dywedodd hefyd ei fod yn bwriadu parhau i gydweithio ag Ofcom a'i randdeiliaid i ddarparu gwasanaeth post fforddiadwy, dibynadwy a chynaliadwy sy'n diwallu anghenion cwsmeriaid.**

5.4 **Mae Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer Gogledd Iwerddon yn parhau i gymryd diddordeb mawr yng ngwaith Ofcom ar y gwasanaeth post cyffredinol, gan nodi rhai amgylchiadau penodol o ran defnyddwyr a'r farchnad yng Ngogledd Iwerddon sy'n tanlinellu pwysigrwydd gwasanaethau dibynadwy a fforddiadwy o dan y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Dywedodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) fod ei ymchwil yn dangos y byddai unrhyw ostyngiad posibl yn amlder danfoniadau "yn teimlo fel cam yn ôl yn hytrach na symud ymlaen i ddiwallu anghenion defnyddwyr". Dywedodd fod pobl hŷn yng Ngogledd Iwerddon hefyd yn teimlo'r un fath ac yn credu'n gryf mewn prisiau unffurf i bobl Gogledd Iwerddon.**

5.5 **Dywedodd Llywodraeth yr Alban fod y cais diweddar am fewnbwn ar amrywiaeth o opsiynau ar gyfer ailgynllunio'r gwasanaeth post cyffredinol yn codi pryderon sylweddol, gan nodi ei bod wedi dweud yn gyson bod yn rhaid cynnal y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol. Roedd ei hymateb yn tynnu sylw at yr heriau o dderbyn post yn brydlon, am gost resymol, yn enwedig o ystyried cymunedau a busnesau mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell, a'r boblogaeth sy'n heneiddio yn yr Alban.**

5.6 Fel y nodwyd yn ein cais am fewnbwn ar ddyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, mae'r dystiolaeth rydym wedi'i chasglu yn awgrymu bod angen i'r gwasanaeth cyffredinol mewn perthynas â llythyrau (nid parseli) newid er mwyn cyd-fynd yn well ag anghenion defnyddwyr a sicrhau ei fod yn gallu parhau i fod yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi amcangyfrif mai cost net y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol i'r Post Brenhinol oedd £325-£675m yn 2021/22 ac mae'r dystiolaeth yn awgrymu nad yw'r lefel hon o gost net yn gynaliadwy yn y tymor hwy.

5.7 Ar gyfer parseli, mae ein cais am fewnbwn yn nodi tystiolaeth bod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol yn diwallu anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd. Rydym yn cydnabod bod cystadleuaeth frwd yn y farchnad barseli ac nid ydym, ar hyn o bryd, wedi cyflwyno unrhyw opsiynau ar gyfer newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer parseli.

5.8 Rydym yn croesawu mewnbwn gan bob parti sydd â diddordeb ar ein hasesiad, sy'n cydnabod bod gwasanaethau post yn dal yn bwysig ac yn werthfawr i lawer o ddefnyddwyr, gan gynnwys y rheini yn y gwledydd.  Ar hyn o bryd nid ydym yn ymgynghori ar gynigion penodol i newid y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ond yn hytrach rydym yn agor trafodaeth gyhoeddus ac yn gwahodd safbwyntiau ar amrywiaeth o opsiynau posibl i helpu i foderneiddio'r gwasanaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'r opsiynau hyn rydym wedi'u nodi yn cynnwys newidiadau i gyflymder danfon llythyrau a gostyngiad yn nifer sylfaenol y diwrnodau danfon ar gyfer llythyrau – mae'r opsiynau hyn i gyd yn dibynnu ar gynnal egwyddorion craidd y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol (cyffredinolrwydd, fforddiadwyedd a phrisiau unffurf).

5.9 Fe wnaethom gynnal digwyddiadau i randdeiliaid ym mhob un o wledydd y DU yn ystod mis Chwefror a mis Mawrth i drafod y dystiolaeth a'r opsiynau, a daw ein cais am fewnbwn i ben ar 3 Ebrill 2024.  Rydym hefyd yn disgwyl i'r Post Brenhinol gyflwyno ei gynigion ei hun ar gyfer dyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol fel rhan o'r broses hon.  Yn dilyn hyn, byddwn yn ystyried yr holl fewnbwn gan randdeiliaid yn ofalus, yn asesu'r opsiynau ac yn cyflwyno'r diweddaraf yn yr haf. Mae rhai o'r opsiynau'n gofyn am newid deddfwriaethol; gellid gwneud rhai eraill drwy newidiadau i'n rheoliadau ac felly nid yw'n bosibl bod yn fanwl gywir ynghylch beth fydd y camau nesaf ar hyn o bryd.

5.10 Rydym yn cydnabod pwysigrwydd deall anghenion defnyddwyr post swmp ac rydym yn annog y defnyddwyr hyn i ymgysylltu â'n cais am fewnbwn. Fel rhan o'r gwaith o ystyried ein camau nesaf, byddwn yn adolygu a fyddai ymchwil ychwanegol ar anghenion defnyddwyr yn y sector post swmp yn fuddiol.

## Ansawdd y gwasanaeth (QoS)

5.11 **Cododd nifer o ymatebwyr, gan gynnwys Consumer Scotland ac MCF bryderon am berfformiad gwael diweddar y Post Brenhinol o ran Ansawdd y Gwasanaeth, gan awgrymu bod Ofcom yn agor adolygiad ac, os yw'n briodol, yn ystyried addasu'r drefn reoleiddio sy'n ymwneud ag Ansawdd y Gwasanaeth.**

5.12 **Dywedodd MCF fod cynnydd mewn prisiau ac Ansawdd gwael y Gwasanaeth yn effeithio ar nifer y post, tra bod Consumer Scotland wedi tynnu sylw at effaith negyddol methiant y Post Brenhinol i gyrraedd ei dargedau Ansawdd y Gwasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf. Roedd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) yn croesawu ein penderfyniad i roi dirwy i'r Post Brenhinol am wasanaeth o ansawdd gwael.**

5.13 Rydym yn cydnabod y problemau parhaus gyda pherfformiad Ansawdd Gwasanaeth y Post Brenhinol a'r effaith negyddol sylweddol y mae hyn yn ei chael ar ddefnyddwyr post, gyda'r oedi'n digwydd ledled y DU. Ym mis Tachwedd 2023, fe wnaethom roi dirwy o £5.6m i'r Post Brenhinol am fethu cyrraedd nifer o'i dargedau perfformiad Ansawdd y Gwasanaeth ar gyfer 2022/23. Fe wnaethom nodi'n glir yn ein canfyddiadau ein bod yn disgwyl i'r Post Brenhinol wella ei ddibynadwyedd a datrys unrhyw faterion gweithredol a gyfrannodd at ei fethiant i gyrraedd ei dargedau cyflawni yn 2022/23. Fel y nodwyd yn ein hadroddiad

diweddar ar fonitro post, rydym yn bryderus iawn am danberfformiad parhaus y Post Brenhinol. Byddwn yn parhau i ddal y Post Brenhinol i gyfrif am y materion hyn, gan gymryd camau gorfodi pellach eleni, os yw hynny'n briodol.

5.14 Fel y nodwyd yn ein cais am fewnbwn ar ddyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, os bydd newidiadau'n cael eu gwneud i fanyleb y Rhwymedigaeth, efallai y bydd angen i ni hefyd adolygu ein fframwaith Ansawdd y Gwasanaeth i sicrhau bod y Post Brenhinol yn cael digon o gymhelliant i ddarparu gwasanaeth dibynadwy o ansawdd uchel. Fe wnaethom egluro nad yw israddio targedau cyflawni yn opsiwn ar gyfer diwygio ac mae'n rhaid i unrhyw newidiadau i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol wella lefelau dibynadwyedd presennol.

## Y farchnad barseli

5.15 **O ran y farchnad barseli, roedd Cyngor ar Bopeth yn annog Ofcom i wneud mwy o waith ar gynaliadwyedd yn y farchnad barseli. Dywedodd Cyngor Defnyddwyr Gogledd Iwerddon (CCNI) y bydd gwaith monitro Ofcom yn arbennig o bwysig yn 2024/25 wrth i drefniadau parseli newydd o dan fframwaith Windsor gael eu rhoi ar waith o fis Medi 2024 ymlaen.**

5.16 **Roedd Evri yn annog Ofcom i ailystyried yr eithriad TAW ar gyfer parseli ac ystyried a yw hyn yn dal yn briodol mewn marchnad barseli gystadleuol, gan nodi bod eithrio TAW yn rhoi mantais gystadleuol i'r Post Brenhinol dros ddarparwyr eraill.**

5.17 Er nad oes gan Ofcom ddyletswydd i ystyried cynaliadwyedd amgylcheddol mewn cysylltiad â'r sector post, rydym yn cydnabod ei bwysigrwydd i ddefnyddwyr post a'r gweithredwyr sy'n eu danfon. Mae ein hymchwil marchnad yn cynnwys ystyriaeth defnyddwyr a busnesau bach a chanolig o ffactorau amgylcheddol wrth ddewis gweithredwyr a gwasanaethau post. Yn ein cais diweddar am fewnbwn ar ddyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, fe wnaethom dynnu sylw at yr effaith y gallai newidiadau mewn cyflymder a diwrnodau danfon ei chael ar allyriadau nwyon tŷ gwydr.

5.18 Rydym yn cydnabod bod cwmnïau parseli, gan gynnwys y Post Brenhinol a Swyddfa'r Post, yn addasu gweithrediadau a'u systemau sy'n delio â chwsmeriaid i fodloni'r gofynion o dan fframwaith Windsor, gan gynnwys rhwymedigaethau rhannu gwybodaeth. Bydd y gofynion newydd yn dod i rym o 1 Hydref 2024 ymlaen a byddwn yn parhau i fonitro darpariaeth y gwasanaeth cyffredinol drwy gydol y cyfnod pontio hwn.

5.19 Mae'r gwasanaethau y mae'n rhaid i'r Post Brenhinol eu darparu fel darparwr gwasanaeth cyffredinol, gan gynnwys gwasanaethau parseli, wedi'u heithrio rhag TAW o dan Ddeddf Treth ar Werth 1999. Mater i'r Llywodraeth fyddai unrhyw newidiadau i hyn. Yn ein cais am fewnbwn ar ddyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol, roeddem wedi nodi bod y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol ar gyfer parseli ar hyn o bryd yn diwallu anghenion defnyddwyr ac felly nid oeddem wedi trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i hyn.

## Fforddiadwyedd a diogelu defnyddwyr post agored i niwed

5.20 **Dywedodd CCNI ei fod yn poeni am y cynnydd ym mhris stampiau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr agored i niwed. Mae CCNI hefyd yn credu bod y mecanwaith cap prisiau rheoleiddio presennol yn fesur diogelu hanfodol i ddefnyddwyr.**

5.21 **Argymhellodd Cyngor ar Bopeth fod Ofcom yn cynnwys gwasanaethau post yn benodol yn ei waith sy'n ymwneud â 'Chefnogi cwsmeriaid agored i niwed'. Mae'n credu y gallai hyn ganiatáu i Ofcom gynnwys gwasanaethau post yng ngherdyn sgorio Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU, er mwyn sicrhau tryloywder i ddefnyddwyr post.**

5.22 **Tynnodd Consumer Scotland sylw at bwysigrwydd sicrhau bod unrhyw newidiadau a wneir er budd gorau defnyddwyr a bod unrhyw effaith negyddol bosibl ar ddefnyddwyr yn yr Alban yn cael ei lleihau. Roedd yr ymateb hefyd yn annog Ofcom i ystyried defnyddwyr gwasanaethau post heb gyfeiriad sefydlog, gan nodi bod nifer o grwpiau o ddefnyddwyr a chymunedau a allai wynebu canlyniadau niweidiol oherwydd diffyg ateb ar gyfer derbyn llythyrau, er enghraifft, y rheini sy'n ddigartref, yn ffoi rhag cam-drin domestig, neu'r rheini o gymunedau Sipsiwn, Roma a Theithwyr.**

5.23 **Mae Llywodraeth yr Alban yn croesawu'r gwaith mae Ofcom yn ei wneud yn y farchnad danfon parseli, yn enwedig y gwaith sy'n ymwneud â thrin defnyddwyr anabl.**

5.24 Fel y nodwyd yn ein datganiad adolygu'r cap diogelu yn ddiweddar, rydym wedi cadw'r cap diogelu ar lythyrau Ail Ddosbarth i sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael gafael ar wasanaethau post fforddiadwy. Fe wnaethom hefyd nodi yn ein cais am fewnbwn ar ddyfodol y Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol mai dwy nodwedd bwysicaf gwasanaethau post i ddefnyddwyr yw fforddiadwyedd a dibynadwyedd. Fe wnaethom egluro yn y ddwy ddogfen hyn ein bod yn bwriadu gweithio gyda rhanddeiliaid i adolygu sut gallai ein hymyriadau i fynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch fforddiadwyedd esblygu yn y dyfodol (ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau posibl i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol) er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr yn well yn y dyfodol.

5.25 Byddwn yn ystyried a oes angen mesurau diogelu ychwanegol i sicrhau bod anghenion pobl yn cael eu diwallu'n llawn. Rydym hefyd yn cydnabod bod rhai defnyddwyr agored i niwed nad yw eu hanghenion efallai'n cael eu diwallu drwy'r gwasanaethau post sydd ar gael ar hyn o bryd, gan gynnwys y rheini sydd heb fynediad diogel at gyfeiriad sefydlog. Rydym yn gofyn am safbwyntiau gan yr holl randdeiliaid ynghylch sut gallai fod angen i'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cyffredinol esblygu i ddiwallu anghenion defnyddwyr a byddwn yn ystyried yr holl ymatebion yn ofalus cyn penderfynu ar y camau nesaf.

5.26 Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein gwaith i fonitro'r gwaith o weithredu'r gofyniad newydd ar weithredwyr parseli i sicrhau bod cwsmeriaid anabl yn cael eu trin yn deg yn ein hadroddiad ar fonitro post nesaf (y bwriadwn ei gyhoeddi yn Ch3 2024/25).

# 6. Meysydd trawsbynciol a gwaith sylfaenol

## Deallusrwydd Artiffisial (AI)

6.1 **Cododd rhai rhanddeiliaid gwestiynau am ddeallusrwydd artiffisial a sut mae Ofcom yn wynebu datblygiad cyflym y sector hwn.**

6.2 Rydym yn cefnogi fframwaith Llywodraeth y DU ar gyfer rheoleiddio deallusrwydd artiffisial, fel y nodir yn ei hymateb i'r ymgynghoriad ar y papur gwyn. Rydym wedi cyhoeddi diweddariad ar ein dull gweithredu strategol ar gyfer deallusrwydd artiffisial ochr yn ochr â'r Cynllun Gwaith hwn, sy'n cynnwys cyflwyno enghreifftiau o waith rydym wedi'i wneud i nodi ac archwilio risgiau a chyfleoedd deallusrwydd artiffisial ar draws ein sectorau.

6.3 Bydd llawer o'r prosiectau a nodir yn Atodiad ein Cynllun Gwaith yn ymwneud â deallusrwydd artiffisial, ac mae ein diweddariad deallusrwydd artiffisial yn rhoi enghreifftiau o ble mae hyn yn wir ar draws ein cylch gwaith.

## Ymchwil a Sganio'r Gorwel

6.4 **Roedd Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban yn annog Ofcom i ymrwymo i gynnwys dadansoddiad rhanbarthol a chenedlaethol ym mha bynnag waith ymchwil neu dystiolaeth y mae'n ei wneud. Er bod hyn yn digwydd yn effeithiol iawn mewn rhai ardaloedd (Cysylltu'r Gwledydd) nid yw hynny'n wir bob amser. Mae'r gallu i gyrraedd y lefel fanylach hon yn allweddol i ddeall a oes unrhyw wahaniaethau ar draws y wlad ac rydym yn credu ei bod yn arbennig o bwysig yn y maes diogelwch ar-lein newydd. Mae'n hanfodol bod adroddiadau tryloywder y llwyfannau ac adroddiadau Ofcom ei hun yn darparu dadansoddiad o brofiadau pobl ar-lein fesul gwlad.**

6.5 O fewn gwaith ymchwil a gwybodaeth Ofcom, mae'r rhan fwyaf o'n hymchwil yn cynrychioli'r DU yn genedlaethol a'i chydrannau, wedi'i dylunio gyda dadansoddiad cadarn o wledydd y DU a rhanbarthau unigol Lloegr mewn golwg. Mae hyn yn cynnwys cynnydd ym maint y sampl yng ngwledydd y DU ar gyfer pob un o'n harolygon tracio rheolaidd er mwyn gallu dadansoddi o fewn pob gwlad yn unigol. (Byddai eithriadau i hyn yn cynnwys ymchwil sydd o reidrwydd yn targedu ardaloedd penodol o'r DU, sydd yn y gorffennol wedi cynnwys ardaloedd peilot o ddiffodd gwasanaethau teleffoni copr ac uno cyfryngau mewn darparwyr cyfryngau lleol).

6.6 Mae gwybodaeth, ymchwil a data ar lefel gwlad yn y DU yn cael eu cyhoeddi yn ein prif adroddiadau, gan gynnwys ein cyhoeddiadau Cyfryngau'r Genedl, Ein Gwlad Ar-lein ac Ymwybyddiaeth o'r Cyfryngau ar gyfer Oedolion a Phlant, a data ategol, gan gynnwys pyrth data rhyngweithiol, data crai a thablau data cryno o ymchwil defnyddwyr, y mae rhai ohonynt yn cael eu cyflwyno yn Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu. Mae'r rhain yn rhoi cipolwg ychwanegol ar lefel gwlad y DU a lefel ranbarthol yn Lloegr. Mae ymchwil ychwanegol gan rannau eraill o Ofcom, gan gynnwys cyfres cyhoeddiadau Cysylltu'r Gwledydd, yn golygu bod modd archwilio data a gasglwyd gan Ofcom ar lefel gwlad y DU, awdurdod lleol, etholaeth San Steffan ac etholaeth ddatganoledig, yn ogystal â chyhoeddi data crai yn ôl uned cod post.

## Monitro effaith Ofcom

6.7 **Roedd ymateb Pwyllgor Cynghori Ofcom ar gyfer yr Alban yn nodi bod monitro pob agwedd ar waith rheoleiddio Ofcom hefyd yn bwysig er mwyn caniatáu i Ofcom benderfynu a yw ei ddull gweithredu neu ei ymyriad yn gweithio. Rydym yn deall y gall fod yn anodd tynnu llinell glir rhwng achos ac effaith ond byddai rhyw elfen o fesur/asesu canlyniadau o fudd i'r Cynllun Gwaith yn gyffredinol.**

6.8 Rydym yn cytuno bod monitro effaith y gwaith a wnawn yn rhan bwysig o'n rôl. Fel y dywedodd y Pwyllgor, mae'n aml yn anodd tynnu llinell glir rhwng achos ac effaith, ond rydym yn gwneud yr ymdrech i wneud hynny i wahanol raddau o soffistigeiddrwydd. Mae ein canllawiau asesu effaith wedi'u diweddaru yn gwneud y cysylltiad clir rhwng y broses asesu effaith a gwerthusiadau yn y dyfodol. Rydym yn sicrhau bod gwerthuso a monitro'n cael eu hystyried ar yr adeg y gwneir penderfyniadau, er mwyn i ni allu casglu'r wybodaeth gywir. Ar hyn o bryd rydym wedi ymrwymo i gynnal un neu ddau o ôl-werthusiadau manwl bob blwyddyn. Mae dwy enghraifft o'r llynedd yn cynnwys ôl-werthusiad o'n diwygiadau i'r broses newid darparwr symudol ac ar Auto-Switch. Rydym hefyd yn monitro'n fwy cyffredinol fel rhan o adroddiadau cyfnodol, gwaith prosiect a monitro cydymffurfiaeth.

## Newid yn yr hinsawdd ac Addasu

6.9 **Maes o arwyddocâd cynyddol yw'r gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd (addasu). Nododd Llywodraeth yr Alban ei bod yn hanfodol bod strategaethau addasu i'r newid yn yr hinsawdd yn cael eu gwreiddio mewn gwaith adeiladu seilwaith newydd a bod mesurau lliniaru'n cael eu rhoi ar waith mewn cyfleusterau seilwaith risg uchel presennol. Gofynnodd yr ymateb beth mae Ofcom yn ei wneud i sicrhau hyn.**

6.10 Mae cynaliadwyedd amgylcheddol yn fater cynyddol bwysig yn y sectorau rydym yn eu rheoleiddio. Yn 2023, roeddem wedi helpu i gynnull gweithgor diwydiant telegyfathrebiadau yn gweithio gyda'r Fforwm Cysylltedd Digidol ac Accenture, a arweiniodd at lawer o'r darparwyr mwyaf yn ymrwymo i weithredu. Rydym yn cael ein calonogi gan gynnydd tebyg yn y sectorau darlledu a phost. Mae llawer o'n cwmnïau rheoledig wedi ymrwymo i gynlluniau sero net ac am y tro cyntaf byddwn yn crynhoi hyn yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd.

## Ceisiadau am ddata

6.11 **Gofynnodd UKCTA am rybudd cliriach a chynharach am geisiadau am wybodaeth.**

6.12 Rydym yn ymwybodol o farn rhanddeiliaid ynghylch rhoi mwy o rybudd ymlaen llaw am geisiadau am wybodaeth ac rydym yn gweithio i wella ein dull o ymdrin â hyn yn fewnol. Yn ddiweddar rydym wedi cynnal adolygiad strategol o'r Gofrestrfa ac rydym wrthi'n gweithredu rhai o'r newidiadau a'r gwelliannau a ddeilliodd o hynny. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn creu porth cymunedol a fydd yn siop un stop ar gyfer ceisiadau am wybodaeth, a bydd yn rhoi mwy o amlygrwydd i randdeiliaid ar geisiadau arfaethedig, yn ogystal â symleiddio ein prosesau mewnol. Rydym hefyd yn bwriadu ymgynghori ar ddull Ofcom o gasglu gwybodaeth eleni.

## Ofcom yn ymgysylltu

6.13 **Roedd Pwyllgor Cynghori'r Alban (ACS) yn annog Tîm Ofcom yr Alban i ystyried ffyrdd o ymgysylltu mwy â rhanddeiliaid y tu allan i ganol yr Alban gan fod y cymunedau hyn yn aml yn wynebu problemau cyfathrebu unigryw a chymhleth. Awgrymodd yr ACS fod Ofcom yn ystyried rhaglen allgymorth flynyddol i gwrdd â'r defnyddwyr hyn a chlywed am eu profiadau go iawn. Nododd yr ACS "ei bod yn debygol y byddai un ymweliad â chymuned ynys yn caniatáu i Ofcom gasglu adborth ar y rhan fwyaf o'r meysydd rydym [ni] yn eu rheoleiddio" a bod manteision y math hwn o ddull gweithredu yn arbennig o amlwg yn ystod y gwaith ar Sgrin Fach: Trafodaeth Fawr. Cafodd pwyntiau cyffredinol ynghylch sut gall Ofcom wella ei amlygrwydd gyda defnyddwyr eu cynnwys hefyd.**

6.14 Rydym yn cydnabod manteision ymgysylltu â rhanddeiliaid yn barhaus a bod cael presenoldeb ar draws y DU o fudd mawr i'n gwaith. Gyda'r datblygiadau mewn technoleg a'r defnydd cynyddol o alwadau fideo dros y blynyddoedd diwethaf, mae'n haws nag erioed o'r blaen i gadw mewn cysylltiad â rhannau gwledig ac anghysbell o'r Alban. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod manteision cryf o weld profiad uniongyrchol y defnyddiwr.

Eleni, roedd cynnal pedwar digwyddiad ymgysylltu wyneb yn wyneb ar y Cynllun Gwaith yn golygu bod modd ymgysylltu'n dda â'n rhanddeiliaid ym mhob gwlad. Rydym hefyd wedi cyflwyno cyfarfodydd blynyddol Pwyllgor Cynghori'r Alban i ffwrdd o swyddfa Ofcom yng Nghaeredin a byddwn yn ceisio sicrhau ein bod yn ymweld â lleoliadau gwahanol ledled yr Alban fel rhan o'r fenter hon.

6.15 **Gofynnodd Cyngor ar Bopeth yr Alban i Ofcom ystyried dadansoddi effaith y canllawiau gwirfoddol a gyhoeddwyd o dan y Canllaw Trin Cwsmeriaid Agored i Niwed yn Deg i sefydlu lle mae darparwyr yn rhoi polisïau ar waith yn llwyddiannus i gwsmeriaid agored i niwed. Gofynnodd hefyd i Ofcom barhau i ymgysylltu â chyrff defnyddwyr sy'n cynrychioli grwpiau agored i niwed.**

6.16 Mae'r Canllaw Trin Cwsmeriaid sy'n Agored i Niwed yn Deg yn awgrymu mesurau y gallai darparwyr eu mabwysiadu i helpu i sicrhau eu bod yn trin pobl sy'n agored i niwed yn deg ac yn rhoi'r cymorth, y gefnogaeth a'r gwasanaethau y maent eu hangen. Roedd y canllaw yn nodi'r cynnydd roedd darparwyr wedi'i wneud er mwyn sicrhau eu bod yn trin cwsmeriaid agored i niwed yn deg, ond yn cydnabod hefyd nid da lle gellir gwell. Cyhoeddwyd diweddariad i'r canllaw yn 2022.

6.17 Mae Ofcom yn parhau i ymgysylltu â chyrff defnyddwyr a'r rheini sy'n cynrychioli defnyddwyr agored i niwed ar amrywiaeth o bynciau ac fe wnaethom gyhoeddi canllawiau asesu effaith wedi'u diweddaru y llynedd. Mae'r ymgysylltu hwn yn digwydd yn aml mewn ymgynghoriadau penodol ar ddatblygiadau polisi ond mae hefyd yn cael ei gefnogi drwy drefniadau parhaus, gan gynnwys drwy'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau. Mae'r Panel Defnyddwyr Cyfathrebiadau, a sefydlwyd gan Ddeddf Cyfathrebiadau 2003, yn grŵp o arbenigwyr annibynnol sydd â phrofiad uniongyrchol o'r sector. Ei rôl yw sicrhau bod llais dinasyddion a defnyddwyr yn cael ei gynrychioli wrth ddatblygu polisi cyfathrebu – yn enwedig "pobl a allai fod mewn sefyllfa fwy bregus mewn cymdeithas".

6.18 Yn yr Alban, rydym yn ymgysylltu'n rheolaidd â Chyngor ar Bopeth yr Alban (CAS) a Consumer Scotland ar amrywiaeth o faterion polisi defnyddwyr. Rydym hefyd yn aelod o Rwydwaith Defnyddwyr yr Alban, ac rydym yn cymryd rhan mewn gwaith sy'n edrych ar y

camau y mae angen eu cymryd ar draws marchnadoedd, cynnyrch a gwasanaethau i leihau effeithiau niweidiol posibl technoleg ar ddefnyddwyr agored i niwed.